38. Ni cheir cychwyn datblygu unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yng nghyswllt unrhyw olion archaeolegol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl hynny, rhaid cyflawni rhaglen llawn o waith archaeolegol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad yn unol â gofynion a safonau'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a gymeradwyir o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y cyflawnir gwaith cloddio archaeolegol ac y cofnodir unrhyw olion.

39. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Strategaeth Ddraenio'n rhoi manylion ar gyfer y draeniau aflan sy'n cael eu cysylltu i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Rhaid iddo hefyd gynnwys darpariaeth i gysylltu'r holl adeiladau presennol yng Nghyfnod 1 Cae Glas a Chyfnod Penrhos i'r garthffos gyhoeddus. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd dyluniadau manwl ar gyfer draeniau aflan, dŵr wyneb a draeniau tir ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (sydd i fod yn unol â darpariaethau amod 5 sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau'r caniatâd cynllunio hwn) wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid gweithredu'r Strategaeth Ddraenio cyn defnyddio unrhyw ran o'r datblygiad y mae'n gysylltiedig â fo.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol a gwell ar gyfer y datblygiad a'r datblygiad presennol ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad.

40. Cyn dechrau ar unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno manylion y System Draenio Cynaliadwy ("SDS") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun SDS ystyried darpariaethau'r Strategaeth Ddraenio a gymeradwywyd (a gymeradwyir o dan amod 39) a bod yn seiliedig ar yr egwyddorion draenio a osodir allan yn yr Adroddiad Asesu Canlyniadau Llifogydd (Capita Symonds, 2012) a gymeradwyir gan y caniatâd cynllunio hwn. Lle bydd cynllun SDS i'w weithredu ar gyfer unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno manylion ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid iddynt ddarparu:

- i. gwybodaeth am y cyfnodau storm enghreifftiol a pha mor ddrwg y byddent, y dull o ohirio a rheoli dŵr wyneb sy'n rhedeg oddi safle'r Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, a'r mesurau i'w cymryd i atal llygru dŵr daear a / neu ddŵr wyneb;
- ii. amserlen ar gyfer gweithrediad y cynllun SDS; a
- iii. cynllun rheoli a chynnal a chadw ar gyfer oes y Cyfnod neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddo gan gynnwys unrhyw system ddraenio neu seilwaith cysylltiedig sydd ei angen i wasanaethu pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad a sicrhau bod y darpariaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cynllun:
 - a. trefniadau sydd i'w mabwysiadu gan unrhyw ymgwymerwr statudol neu awdurdod cyhoeddus neu drefniadau eraill i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu gydol oes y datblygiad; a
 - b. rhaid i'r trefniadau cynnal a chadw gynnwys monitro ar gyfer unrhyw ecoleg (ac ystyried hefyd y Cynlluniau Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol) sy'n bresennol a methodoleg i warchod unrhyw ecoleg sy'n cael ei hadnabod fel rhan o'r cynllun rheoli a chynnal a chadw.

Rhaid gweithredu'r cynllun SDS a gymeradwyir ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn llawn cyn dechrau ar y datblygiad arfaethedig fel rhan o gynllun neu o dan gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a rhaid glynu wrth ei ddarpariaethau wedyn.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio fel rhan o'r datblygiad ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol. Hefyd i ddiogelu a gwella'r diddordeb ecolegol a rhywogaethau gwarchoddedig.

41. Ni chaiff dŵr ffo o ddraenau tir ollwng, yn union neu'n anuniongyrchol, i'r system garthffos gyhoeddus.

Rheswm: I atal gormod o ddŵr rhag mynd i'r system garthffos gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

42. Ni chaiff dŵr wyneb gysylltu, naill ai'n union neu'n anuniongyrchol, i'r system garthffos gyhoeddus.

Rheswm: I atal gormod o ddŵr rhag mynd i'r system garthffos gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

43. Rhaid i'r dŵr aflan a'r dŵr wyneb ddraenio ar wahân o holl safleoedd y cais.

Rheswm: I ddiogelu cryfder y system garthffos gyhoeddus.

44. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli sydd i adnabod yr holl gwlferti a phibelli presennol. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithrediad) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ddarparu manylion llawn yr holl drefniadau presennol ar gyfer draenio drwy gwlferti a phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad a darparu ar gyfer clirio, cynnal a chadw a lle bo hynny'n briodol agor unrhyw drefniadau presennol ar gyfer draenio drwy gwlferti a phibelli. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithrediad) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau gweithrediad effeithiol y cwlferti a'r pibelli i leihau'r perygl llifogydd. Hefyd i ddiogelu a gwella'r diddordeb ecolegol a rhywogaethau gwarchoddedig, a hefyd yn rhoi sylw dyledus i Gynlluniau Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol.

45. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion ar gyfer lleoliad, maint gan gynnwys trawsdoriadau, a swyddogaeth yr holl gyrff dŵr arfaethedig ynghyd â Strategaeth Pyllau a Chyrrff Dŵr sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y cyflwynir manylion hydrolegol, geodechnegol a pheiriannyddol llawn yr holl byllau dŵr a chyrrff dŵr eraill a gymeradwyir fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a'r gwaith arall yn unol â'r manylion a gymeradwyir ac yn unol ag amserlen ar gyfer ei weithredu.

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth ac i ddiogelu a gwella nodweddion tirlun, ecoleg ar gyfer amffibiaid, adar ac unrhyw rywogaethau gwarchoddedig.

46. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun ymchwilio safle'n seiliedig ar ddarparu gwybodaeth ar gyfer asesiad manwl o'r risg o halogi'r holl dderbynyddion, gwerthusiad opsiynau a strategaeth adfer yn rhoi manylion llawn y mesurau adfer sy'n ofynnol a'u gweithrediad, a chynllun monitro a chynnal a chadw hirdymor ar gyfer halogyddion. Rhaid cyflwyno'r cynllun hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff

datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r manylion a gyflwynir o dan yr amod hwn yn ysgrifenedig. Unwaith y cymeradwyir hwynt, rhaid gweithredu'n llawn a glynu wrth y manylion a gymeradwyir o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod unrhyw risg i dderbynyddion o halogi sy'n bresennol ar y safle neu fel rhan o unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad yn cael ei adfer yn foddhaol.

47. Ni cheir meddiannu na defnyddio unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad yr effeithir arnynt gan yr halogyddion a nodir yn amod 46 hyd nes y bydd adroddiad dilysu'n dangos y cwblhawyd y gwaith a ddisgrifir yn y strategaeth adfer a gymeradwywyd ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau bod unrhyw halogi sy'n bresennol ar y safle neu fel rhan o unrhyw Gyfnod yn cael ei adfer yn foddhaol.

48. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Cynllun Ecolegol Fesul Cyfnod ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, sydd i fod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan amod 5 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid wedyn gweithredu a glynu'n gaeth wrth y Cynllun Ecolegol Fesul Cyfnod ac yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I ddiogelu a gwella ecoleg y safle, rhywogaethau gwarchoddedig a rhywogaethau eraill.

49. Rhaid nodi a oes angen unrhyw drwydded rhywogaethau gwarchoddedig fel rhan o bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yng nghyswllt Cyfnod neu ran o'r datblygiad. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn ac wedi cadarnhau'n ysgrifenedig naill ai:

- a) bod angen trwydded a roddir gan y corff trwyddedu perthnasol o dan Reoliad 53 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (neu unrhyw Offeryn Statudol yn disodli'r Rheoliadau hyn) yn awdurdodi bod y datblygiad penodedig yn cael mynd yn ei flaen; neu
- b) datganiad ysgrifenedig gan y corff trwyddedu perthnasol i'r perwyl nad oes angen trwydded rhywogaethau gwarchoddedig ar gyfer unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad.

Rheswm: I helpu i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Cynefinoedd (2010).

50. Cyn dechrau ar bob Cyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno Strategaeth Monitro Ecolegol ("EMS") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r EMS gynnwys y canlynol:

- a. nodau ac amcanion monitro i gyd-fynd â'r pwrpas dywededig;
- b. cadarnhad ynghylch amodau sylfaenol digonol cyn dechrau ar y datblygiad;
- c. meini prawf llwyddiant priodol, trothwyon, ffactorau niweidiol, ffactorau sy'n sbarduno a thargedau y gellir barnu effeithiolrwydd yr amrywiol fesurau cadwraeth sy'n cael eu monitro yn eu herbyn;
- d. dulliau o gasglu a dadansoddi data;
- e. mesurau goruchwyllo er mwyn monitro a lliniaru effeithiau dal / lladd yn ddamweiniol;
- f. lleoliad y monitro;
- g. amserlen ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a'r trefniadau monitro wedyn tra pery'r defnydd o'r "Cyfnod" na rhan o'r datblygiad hwnnw o'r datblygiad a gymeradwyir yma ac sydd i aros yn llwyr mewn grym ac i gael effaith am gyn hired ag y bydd y datblygiad a gymeradwyir yma'n parhau i gael ei ddefnyddio;

- h. manylion amseru a pharhad y monitro sydd i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar adegau fydd wedi eu nodi yn yr EMS neu ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
- i. personau cyfrifol a llinellau cyfathrebu;
- j. trefniadau i adolygu, lledaenu a lle bo hynny'n briodol ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau a'r deilliannau;
- k. darpariaeth ar gyfer cymryd camau cywiro i'w cytuno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac i'w gweithredu o fewn amserlen benodol lle mae'r monitro'n awgrymu nad yw darpariaethau meini prawf a) ac) yn cael eu cwrdd.
- l. manylion ar gyfer sut y mae'r EMS wedi ystyried y Cynllun(iau) Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol a gymeradwywyd; a
- m. tystiolaeth bod y materion o fewn cwmnasiad pwyntiau a. i l. wedi cael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan ymgynghoreion statudol ac unrhyw rhai arall perthnasol.

Rhaid cyflawni'r gwaith a nodwyd yn yr EMS yn gwbl unol â'r manylion a'r amserlen a gymeradwyir yma.

Rheswm: I sicrhau na achosir niwed i statws cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau a bod canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn yn cael eu monitro'n addas. Pwrpas yr EMS fydd monitro a lliniaru effeithiau'r datblygiad yn y tymor byr a'r hirdymor ar gynefinoedd a rhywogaethau yr ystyrir eu bod o ddiddordeb ecolegol i bob Cyfnod neu rhan o'r datblygiad.

51. Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd datganiad dull ar gyfer rhywogaethau gwarchoddedig yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r datganiad dull gynnwys:

- a) pwrpas ac amcanion o'r gwaith arfaethedig;
- b) y dyluniad(au) manwl a / neu'r dull(iau) gwaith sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion dywededig (gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, math a ffynhonnell y deunyddiau sydd i'w defnyddio) gan gynnwys mesurau osgoi rhesymol sy'n cynnwys codi ffens dros dro a symud rhywogaethau o ardaloedd gweithio;
- c) maint a lleoliad y gwaith arfaethedig i'w dangos ar fapiau a chynlluniau wrth raddfa briodol;
- d) amserlen weithredu, gan ddangos pa waith sy'n cyd-fynd â'r gwahanol gyfnodau adeiladu sydd mewn golwg;
- e) personau sy'n gyfrifol am weithredu ac asesu'r gwaith;
- f) mesurau sydd i'w cymryd i atal neu leihau dal / lladd damweiniol yn ystod y datblygiad neu wedyn;
- g) mesurau ôl-ofal a chynnal a chadw hirdymor; a
- h) sut y bwriedir gwaredu unrhyw wastraff yn codi o'r gwaith.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a'r amserlen a gymeradwyir yma.

Rheswm: I sicrhau nad oes niwed i statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ystod y gwaith adeiladu, a bod data sylfaenol priodol wedi'i gasglu i fonitro canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn.

52. Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd manylion llawn yr holl fesurau a ddyfeisiwyd i atal dal / lladd amffibiaid ac ymlusgiaid yn ddamweiniol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid iddynt gynnwys mesurau:

- a) sydd i'w cyflawni yn ystod y datblygiad; a
- b) sydd i'w hymgorffori yn y datblygiad gan gynnwys dyluniad a gweithrediad systemau rheoli dŵr wyneb sy'n gyfeillgar i amffibiaid.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: Fel tystiolaeth yr ystyriwyd materion dal / lladd yn ddamweiniol gan felly sicrhau na achosir niwed i gynnal statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ac i ddiogelu rhywogaethau gwarchoddedig eraill.

53. Lle nodir hynny mewn Arolwg Ecolegol fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad, rhaid i fanylion llawn ar gyfer creu a chau daearau moch daear, gan gynnwys amserlen ar gyfer eu creu a'u cau, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd copi electronig o'r manylion a gyflwynir yn cael ei ddarparu ynghyd ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol am foch daear a olygwyd at bwrpas ymgynghori gyda'r cyhoedd neu ymgynghori arall. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a lliniaru'r effeithiau ar rywogaethau gwarchoddedig.

54. Lle nodir hynny mewn Arolwg Ecolegol ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun gwneud iawn yng nghyswllt y Fadfall Gribog Fwyaf ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun gwneud iawn Madfall Gribog Fwyaf gynnwys y canlynol:

- a. adnabod lleoliad yr ardal(oedd) gwneud iawn ynghyd â rhoi gwybod am leoliad ardaloedd o'r fath i gyrrff penodol ar ffurf fformatau'r system wybodaeth ddaearyddol (GIS);
- b. cynlluniau rheoli hirdymor gan gynnwys adolygiadau cyfnodol;
- c. rhagnodiadau rheoli hirdymor;
- d. rhagnodiadau wardeinio hirdymor;
- e. dull ar gyfer rhoi adnoddau ar gyfer rheoli hirdymor;
- f. personau neu sefydliadau cyfrifol a llinellau cyfathrebu; a
- g. dulliau ar gyfer sicrhau bod yr ardaloedd gwneud iawn yn cael eu diogelu ac yn weithredol yn yr hirdymor.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau nad oes niwed i statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, a bod data sylfaenol priodol wedi'i gasglu i fonitro canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn.

55. Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer cadw, gwella a thrawsleoli'r fflora ar y ddaear yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu ac sydd lle'n berthnasol i fod yn unol â darpariaethau Arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1 Pentref Hamdden Penrhos 2014 (neu unrhyw ddiweddariad neu fersiwn bellach o'r ddogfen hon) wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sydd i'w gymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a lliniaru unrhyw effeithiau ar yr ecoleg.

56. Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer difa rhywogaethau planhigion goresgynnol yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu ac sydd lle'n berthnasol i fod yn unol â darpariaethau Arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1 Pentref Hamdden Penrhos 2014 (neu unrhyw ddiweddariad neu fersiwn bellach o'r ddogfen hon) wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sydd i'w gymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a gwella ecoleg yr ardal.

57. Ni cheir meddiannu unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd atodlen yn nodi'r holl oriau a'r diwrnodau gweithredu (gan gynnwys gwyliau banc ac unrhyw amseroedd dosbarthiadau fel y bo'n briodol) ar gyfer yr holl ddefnyddiau gweithredol a defnyddiau atodol yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i chyflwyno a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni cheir wedyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad heblaw rhwng yr amseroedd a'r diwrnodau a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn. Er mwyn osgoi amheuaeth mae'r amod cynllunio hwn yn eithrio unedau llety gwyliau ac unedau preswyl a gymeradwyir o dan y caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I ddiogelu amwynder yr ardal.

58. Ni cheir defnyddio Cyfnod Penrhos a Chyfnod 2 Cae Glas ond fel pentref hamdden gwyliau ynghyd â defnyddiau atodol.

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd cynllunio ac i sicrhau nad yw defnyddiau amhriodol yn digwydd yn yr ardal dan sylw.

59. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn nodi'r holl ardaloedd parcio / troi / llwytho a dadlwytho ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid gosod y cynllun allan cyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd a'i gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: Fel bod cerbydau'n gallu tynnu, parcio a throï'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

60. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn manylu yr holl feysydd a chyfleusterau storio beiciau (a fydd yn cynnwys stondin beicia, llochesi beiciau a ganolfannau / cyfansoddion seiclo diogel) ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid gosod y cynllun allan cyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd a'i gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer storio beiciau'n ddiogel a sicr yn cael ei wneud i annog deiliaid y datblygiad i deithio ar feic.

61. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion ar gyfer lleoliad a hyd yr holl lwybrau cefyl, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau a phwyntiau mynediad i gerddwyr a cherbydau preifat yn yr ardal sydd i'w datblygu fel rhan o'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad a rhaid dangos yr ardaloedd a'r lleoliadau hyn yn glir ar y cynlluniau sydd i'w cyflwyno fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl.

Rheswm: Er lles amwynder y cyhoedd yn gyffredinol a phreswylwyr y tai y mae'r mynedfeydd hyn yn berthnasol iddynt.

Adran B – Amodau Cynllunio Amlinellol – Parc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi

Mae'r amodau cynllunio amlinellol canlynol yn berthnasol i Gyfnod Penrhos y datblygiad yn unig a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac a ddangosir wedi'i groeslinellu'n wyrdd ar y cynllun ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau cynllunio amlinellol cyffredinol a restrir yn Adran A yr hysbysiad o benderfyniad hwn sy'n berthnasol i bob un o'r tri safle.

62. Os yw'n digwydd bod canolfan(nau) Gwres a Phŵer Cyfunol ("CHP") yn cael ei/eu datblygu, rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer y CHP i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos. Rhaid i'r manylion sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos gynnwys asesiad llawn o ansawdd yr aer a threfniadau i'w fonitro wedyn, gan gynnwys amserlen ar gyfer hynny a chyfrifiadau o uchder(au) y simneiau. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol ar gyfer y datblygiad ac na fydd effaith negyddol sylweddol ar yr amcanion yng nghyswllt ansawdd yr aer.

63. Fel rhan o'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Llifogydd ("FMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r Cyfnod, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu a'i gynnal a'i gadw, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r gwaith yng nghyswllt y cynllun a gymeradwywyd, a hefyd y gwaith cynnal a chadw ar ei gyfer wedyn, yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd. Rhaid i'r FMP wneud trefniadau ar gyfer gwagu Cyfnod Penrhos neu ran o Gyfnod Penrhos os bydd llifogydd llanw'n digwydd.

Rheswm: I sicrhau bod canlyniadau unrhyw llifogydd wedi cael eu hasesu a'u lliniaru'n ddigonol.

64. Rhaid i'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys manylion llawn ac amserlen ar gyfer y gwaith o atgyweirio Basgedi Cerrig a chynnal a chadw wedyn a'r mesurau lliniaru eraill sydd eu hangen ar gyfer yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (Capita Symonds, 2012), sydd i'w cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sy'n destun yr amod hwn, a'r gwaith cynnal a chadw wedyn, yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau mesurau i liniaru yn erbyn canlyniadau posibl unrhyw ddigwyddiad llifogydd.

65. Fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer datblygu'r Tŷ Cwch a Baddondy (sy'n cael eu datblygu fel rhan o Gyfnod Penrhos) rhaid cyflwyno manylion ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi lefel(au) arfaethedig y lloriau gorffenedig ar gyfer y Tŷ Cwch a'r Baddondy sydd i fod yn 4.8m AOD o leiaf ac yn unol â'r cynlluniau a gymeradwyir fel rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I leihau'r perygl llifogydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004) (neu unrhyw ddogfen(nau) sy'n diwygio neu'n disodli'r canllawiau hyn).

66. Ni chaiff datblygiad Cyfnod Penrhos na rhan o Gyfnod Penrhos ddechrau hyd nes y bydd cynllun o fesurau i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r Llwybr Arfordirol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybr(au) Beicio eraill yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer y Cyfnod hwnnw, neu ran o'r datblygiad, wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun i gyflwyno o dan ddarpariaeth yr amod yma gynnwys cyhoeddusrwydd a hysbysiad o'r mesurau sydd i'w cymryd i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r llwybrau a nodwyd ac amserlen ar gyfer gwneud hynny. Rhaid gweithredu a glynu wrth y manylion a gymeradwyir mewn ysgrifen o dan ddarpariaethau'r amod hwn drwy gydol y gwaith o adeiladu Cyfnod Penrhos neu'r rhan o'r datblygiad y maent yn berthnasol iddi.

Rheswm: Er mwyn lleihau anhwylystod i ddefnyddwyr llwybrau troed ac er lles diogelwch y cyhoedd.

67. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys a chyflwyno manylion llawn ar gyfer yr holl ffyrdd mynediad preifat arfaethedig a ffyrdd eraill yn y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r ffyrdd mynediad preifat a'r ffyrdd eraill a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn cyn meddiannu Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddi.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

68. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Gyfnod Penrhos neu ran o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd cynllun yn dangos manylion ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a manau parcio eraill, i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol manylion llawn y seiffonau tanwydd neu system System Draenio Cynaliadwy ("SDS") o fath arall sydd i fod â chapasiti priodol, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gyfeirio at a bod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau amodau 39 a 40 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cwblhau a gweithredu'r gwaith i waredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a manau parcio eraill yn unol â'r manylion a'r amserlen sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol fel rhan o'r datblygiad arfaethedig ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol.

69. Er y mynediad o Ffordd Llundain (neu unrhyw enw diwygiedig ar y briffordd gyhoeddus hon) fel y'i dangosir ar gynllun y "Mynediad Cylchfan Arfaethedig" (cyfeirnod cynllun: 90145_TA_100adolygiad E) a gymeradwyir yma, cyn dechrau datblygu Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer dylunio ac adeiladu'r mynediad a ddangosir ar y darlun a gymeradwywyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r cynllun gynnwys, o leiaf, manylion peiranyddol llawn y mynediad i'r briffordd o'r rhan honno o'r safle, lleiniau gweledd (gan gynnwys, o leiaf, y llinell ganol a'r pellteroedd o boptu a'r uchder arfaethedig uwchlaw'r gerbydlon / pafin), amserlen ar gyfer gweithredu'r mynediad, y cyfleusterau croesi i gerddwyr, y deunyddiau adeiladu, lefelau, graddiannau, draenio dŵr wyneb, goleuadau, nodweddion hanesyddol, gwrychoedd, coed a nodweddion llinellol presennol megis waliau a thirlunio, gan gynnwys yr holl addasiadau angenrheidiol ac arfaethedig i'r briffordd bresennol. Rhaid cadw'r lleiniau gweledd a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn glir o unrhyw rwystr. Yna rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad ac i sicrhau digon o welededd rhyngddynt. I sicrhau bod y datblygiad yn cadw a diogelu strwythurau a nodweddion tirlun er lles amwynder gweledol ac am resymau ecolegol a hanesyddol.

Adran C – Caniatâd Cynllunio Llawn – Tŵr y Beiliaid, Tŷ Allan yn Fferm Penrhos a Thŷ Beddmanarch yn Mharc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi

Mae'r Amodau Cynllunio llawn canlynol yn berthnasol yn unig i'r adeiladau presennol a nodir ar ddarlun Rhif 020 sydd ynghlwm fel Atodiad 2 ac a leolir yng Nghyfnod Penrhos a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac ac a ddangosir wedi'i groeslinellu'n wyrdd ar y cynllun ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn

70. Bydd y newid defnydd a ganiateir drwy hyn yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I gydymffurfio â gofynion Adran 91(1) Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.

71. Bydd y newid defnydd a ganiateir yma ond yn dechrau ar ôl gweithredu'r cais cyntaf am Faterion a Gadwyd yn Ôl a gymeradywyd mewn perthynas â'r Cyfnod Penrhos o'r datblygiad. Bydd y newid defnydd a ganiateir yma ond ei ddefnyddio ar sail atodol i'r pentref hamdden gwyliau ynghyd â'r defnyddiau atodol eraill a gymeradywyd o dan ddarpariaethau caniatâd cynllunio amlinellol 46C427K/TR/EIA/ECON.

Rheswm: I sicrhau nad yw'r newid defnydd yn digwydd cyn gweithredu'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer y Cyfnod Penrhos cysylltiedig ac i sicrhau ei fod yna'n aros yn rhan o'r un uned gynllunio.

72. Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir yma'n gwbl unol â'r Cynllun Paramedrau ar Raddfa Lai (Darlun Rhif 020).

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.

73. Ni chaiff unrhyw ran o'r datblygiad a ganiateir yma ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer parcio cerbydau, troi a llwytho / dadlwytho yng nghyswllt yr holl adeiladau a nodir ar ddarlun Rhif 020 wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun ar gyfer parcio cerbydau, troi a llwytho / dadlwytho a gymeradwywyd yn ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn gael ei osod allan cyn meddiannu'r datblygiad a ganiateir yma a rhaid wedyn cadw'r ardal honno drwy gydol y defnydd a gymeradwyir yma.

Rheswm: Fel bod cerbydau'n gallu tynnu, parcio a thro'i'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

Er gwybodaeth

1. Nid yw'r caniatâd cynllunio a roddir drwy hyn ar gyfer y newid defnydd arfaethedig yn awdurdodi unrhyw newidiadau i edrychiad allanol yr adeiladau.
2. Os bwriedir gwneud gwaith ar edrychiad allanol yr adeiladau, yna efallai y bydd angen caniatâd cynllunio llawn.
3. Os bwriedir cyflawni gwaith mewnol ac allanol ar adeilad sydd wedi'i restru, yna gallai fod angen caniatâd adeilad rhestredig.

4. Nodiadau'n ymwneud â rhywogaethau gwarchoddedig ac adeiladau (ystlumod, adar nythu), Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cynefinoedd (2010, fel y'u diwygiwyd).

Adran D – Amodau Cynllunio Amlinellol – Tir yng Nghae Glas, Parc Cybi, Caergybi

Mae'r amodau cynllunio amlinellol canlynol yn berthnasol i Cyfnod 1 Cae Glas, Gwarchodfa Natur Cae Glas, Cae Criced Lôn Trefnath, Canolfan Dehongli Treftadaeth a Cyfnod 2 Cae Glas y datblygiad yn unig a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac a ddangosir wedi eu croeslinellu'n felyn ar y cynllun sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn, a'r tir glas cysylltiedig sydd o fewn rheolaeth yr ymgeisydd pe bai angen o dan ddarpariaethau'r amod cynllunio perthnasol. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau cynllunio amlinellol cyffredinol a restrir yn Adran A yr hysbysiad o benderfyniad hwn sy'n berthnasol i bob un o'r tri safle.

74. Ni chaiff unrhyw waith neu weithrediad(au) yng nghyswllt ailwampio Cyfnod 1 Cae Glas yn Gyfnod 2 Cae Glas, a hynny'n waith neu'n weithrediad(au) mewnol ac allanol, ddigwydd hyd nes y bydd manylebau llawn gan gynnwys cynllun yn nodi'r lle parcio i gerbydau, y lle troi a llwytho / dadlwytho ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith neu weithrediad(au) ailwampio ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid wedyn gweithredu'r gwaith o ailwampio Cyfnod 1 Cae Glas a'r cyfleusterau cysylltiedig yn Gyfnod 2 Cae Glas yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn. Rhaid i'r cynllun cymeradwy ar gyfer parcio i gerbydau, lle troi a llwytho / dadlwytho gael ei osod allan cyn defnyddio Cyfnod 2 Cae Glas neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddi a rhaid ei gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

75. Os yw'n digwydd bod canolfan(nau) Gwres a Phŵer Cyfunol ("CHP") yn cael ei/eu datblygu, ac fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer y CHP i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas. Rhaid i'r manylion sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas gynnwys asesiad llawn o ansawdd yr aer a threfniadau i'w fonitro wedyn, gan gynnwys amserlen ar gyfer hynny a chyfrifiadau o uchder(au) y simneiau. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol ar gyfer y datblygiad ac na fydd effaith negyddol sylweddol ar yr amcanion yng nghyswllt ansawdd yr aer.

76. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl sy'n ymwneud â Cyfnod 1 Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys manylion ar gyfer y lleoliad a'r manylion adeiladu llawn, topograffig ynghyd â manylion eraill gan gynnwys deunyddiau ac amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw fwnd neu arglawdd ar hyd ffyrntiad y safle â Gwibfordd yr A55 a'u cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn fod yn unol â'r cynllun Plannu Manwl a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan amod 20 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

77. Rhaid i'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer datblygu Cae Criced Lôn Trefnath gynnwys manylion llawn y gwaith adeiladu ynghyd â manylion eraill yng nghyswllt

safonau a manyleb y cae criced sydd i'w symud a'r cyfleusterau cysylltiedig (ac sydd i fod yn unol â "Cynllunio a Dylunio ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored" Meysydd Chwarae Cymru (2008) a "Dylunio a Chynnal a Chadw Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored" (2004) neu unrhyw ddogfennau sy'n diweddarau neu'n disodli'r dogfennau hyn) yn lle'r ddarpariaeth bresennol yng Nghyfnod Penrhos ynghyd ag amserlen ar gyfer eu gweithredu a'u cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad yng nghyswllt Cae Criced Lôn Trefnath ddechrau hyd nes y cymeradwyr y manylion o dan yr amod hwn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a'r gwaith arall sydd arfaethedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

78. Fel rhan o'r gymeradwyaeth cais(au) am Faterion a Gadwyd yn Ôl yn ymwneud â datblygiad Cyfnod 1 Gwarchodfa Natur Cae Glas, Cyfnod 2 Gwarchodfa Natur Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw rhaid cyflwyno cynllun sy'n dangos manylion yr holl llwybr(au) troed arfaethedig a lleoliad(au) unrhyw gyfleusterau i gerddwyr eraill yn y Cyfnod neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am ei gymeradwyaeth ysgrifenedig. Mae'r manylion sydd u'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn i gynnwys o leiaf:

- manylion peirianeg llawn y llwybrau troed arfaethedig ac unrhyw gyfleusterau i gerddwyr eraill;
- darpariaethau fydd yn cael eu gwneud ar gyfer mynediad gan bobl gyda nam symudedd neu ar y synhwyrau; a
- amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith.

Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad o Gyfnod 1 Gwarchodfa Natur Cae Glas, Cyfnod 2 Gwarchodfa Natur Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnodau hwnnw ddechrau nes i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymeradwyo manylion y cynllun o dan yr amod hwn. Rhaid i'r datblygiad a gwaith eraill a gwmpesir gan y cynllun gael eu gweithredu yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd. Ni fydd unrhyw llwybr (au) arall arfaethedig neu unrhyw gyfleusterau mynediad i gerddwyr arall heblaw'r rhai a gymeradwyr yn ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: Er mwyn diogelu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Beddmanarch-Cymyran. Hefyd er mwyn sicrhau bod ffurf dderbyniol o ddatblygiad a sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer defnyddwyr anabl.

79. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Warchodfa Natur Cae Glas, Cae Criced Lôn Trefnath na'r Ganolfan Dehongli Treftadaeth ddechrau hyd nes y bydd trefniadau ar gyfer y dull mynediad i gerbydau a'r trefniadau mynediad eraill at y Cyfnod(au) hyn wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gynnwys, o leiaf:

- manylion peirianyddol llawn y mynediad i'r briffordd o'r rhan honno o'r safle;
- lleiniau gweledd (gan gynnwys, o leiaf, y llinell ganol a phellteroedd o boptu, yr uchder uwchlaw'r gerbydlon / pafin; ac
- amserlen ar gyfer gweithredu'r mynediad, y cyfleusterau croesi i gerddwyr, y deunyddiau adeiladu, lefelau, graddiannau, draenio dŵr wyneb, goleuadau, nodweddion hanesyddol, gwrychoedd, coed a nodweddion llinellol presennol megis waliau a thirlunio, gan gynnwys yr holl addasiadau angenrheidiol ac arfaethedig i'r briffordd bresennol.

Rhaid cyflawni'r datblygiad wedyn yn unol â'r cynllun(iau) a gymeradwyir o dan yr amod hwn. Rhaid cadw'r lleiniau gwelededd a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn glir o unrhyw rwystr(au).

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad ac i sicrhau digon o welededd rhyngddynt. I sicrhau bod y datblygiad yn cadw a diogelu strwythurau a nodweddion tirlun er lles amwynder gweledol ac am resymau ecolegol a hanesyddol.

80. Fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ynghylch datblygu Cae Criced Lôn Trefignath rhaid cyflwyno cynllun yn dangos nifer, lleoliad a manylion llawn ar gyfer adeiladu'r man(nau) pasio ar hyd Lôn Trefignath (neu unrhyw enw diwygiedig ar gyfer y briffordd gyhoeddus hon) i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid adnabod yr holl wrychoedd, coed a nodweddion llinellol fel waliau ynghyd â methodoleg a mesurau i liniaru'r effeithiau ar yr ecoleg a'r tirlun. Rhaid i'r cynllun a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn gael ei weithredu a'i gwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn y gellir defnyddio Cae Criced Lôn Trefignath.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd. I oleuo ymdrin â materion ecolegol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol (NERC, Rheoliadau Cynefinoedd).

81. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys a chyflwyno manylion llawn ar gyfer yr holl ffyrdd mynediad preifat arfaethedig a ffyrdd eraill i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r ffyrdd mynediad preifat a ffyrdd eraill a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn gael eu cwblhau cyn dechrau ar Gyfnod 1 Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

82. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Gyfnod 1 Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd cynllun yn dangos manylion ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a mannau parcio eraill, i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol manylion llawn y seiffonau tanwydd neu system System Draenio Cynaliadwy ("SDS") o fath arall sydd i fod gyda chapasiti priodol, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gyfeirio at a bod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau amodau 39 a 40 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd. Rhaid i'r gwaith i waredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a mannau parcio eraill gael ei gwblhau a'i weithredu'n unol â'r manylion a'r amserlen sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol fel rhan o'r datblygiad arfaethedig ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol.

83. Er y mynediad arfaethedig o Barc Cybi (neu unrhyw enw diwygiedig ar gyfer y briffordd gyhoeddus hon) fel y'i dangosir ar gynllun "Mynediad Arfaethedig Cae Glas" (cyfeirnod cynllun: 90145/004 adolygiad A) i Gyfnod 1 Cae Glas a gymeradwyir yma, cyn dechrau ar y Cyfnod hwn o'r datblygiad rhaid cyflwyno manylion dylunio ac adeiladu llawn y mynediad a ddangosir ar y darlun a gymeradwywyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun gynnwys, o leiaf, manylion peirianyddol llawn y mynediad i'r briffordd o'r rhan honno o'r safle, lleiniau gwelededd (gan gynnwys, o leiaf, y llinell ganol a'r pellteroedd o boptu a'r uchder uwchlaw'r gerbydlon / pafin), amserlen ar gyfer gweithredu'r mynediad, y cyfleusterau croesi i

gerddwyr, y deunyddiau adeiladu, lefelau, graddiannau, draenio dŵr wyneb, goleuadau, nodweddion hanesyddol, gwrychoedd, coed a'r nodweddion llinellol presennol megis waliau a thirlunio, gan gynnwys yr holl addasiadau angenrheidiol ac arfaethedig i'r briffordd bresennol. Rhaid cyflawni'r datblygiad wedyn yn unol â'r cynllun a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn cyn dechrau ar unrhyw ran o Gyfnod 1 Cae Glas. Rhaid cadw'r lleiniau gwelededd a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn glir o unrhyw rwystr(au). Nid oes unrhyw ddull mynediad arall ar gyfer cerbydau i fod i / o'r briffordd gyhoeddus heblaw am fynediad dros dro wedi'i gytuno arno at bwrpasau adeiladu'n unig, i / o Gyfnod 1 Cae Glas neu Gyfnod 2 Cae Glas.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad ac i sicrhau digon o welededd rhyngddynt. I sicrhau bod y datblygiad yn cadw a diogelu strwythurau a nodweddion tirlun er lles amwynder gweledol ac am resymau ecolegol a hanesyddol.

Adran E – Amodau Cynllunio Amlinellol – Kingsland, Ffordd Kingsland, Caergybi

Mae'r amodau cynllunio amlinellol canlynol yn berthnasol i Gyfnod 1 Kingsland a Cyfnod 2 Kingsland o'r datblygiad yn unig a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac a ddangosir wedi eu croeslinellu'n biws ar y cynllun sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn, a'r tir glas cysylltiedig sydd o fewn rheolaeth yr ymgeisydd pe bai angen o dan ddarpariaethau'r amod cynllunio perthnasol. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau cynllunio amlinellol cyffredinol a restrir yn Adran A yr hysbysiad o benderfyniad hwn, sy'n berthnasol i bob un o'r tri safle.

84. Ni chaiff unrhyw waith neu weithrediad(au) yng nghyswllt y Cyfnod o ailwampio Cyfnod 1 Kingsland yn Gyfnod 2 Kingsland, a hynny'n waith neu'n weithrediad(au) mewnol ac allanol, ddigwydd hyd nes y bydd manylbau llawn gan gynnwys cymysgedd y mathau o dai, nifer yr ystafelloedd gwely, y lle parcio ceir a'r man(nau) troi ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith neu weithrediad(au) ailwampio ar gyfer y Cyfnod hwnnw, wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid wedyn gweithredu'r gwaith o ailwampio Cyfnod 1 Kingsland ac unrhyw gyfleusterau cysylltiedig yn Gyfnod 2 Kingsland yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn. Rhaid i'r cynllun cymeradwy ar gyfer parcio i gerbydau a lle troi gael ei osod allan cyn defnyddio Cyfnod 1 Kingsland neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddi a rhaid ei gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad a bod y datblygiad yn darparu cymysgedd priodol o fathau o dai.

85. Rhaid i'r safon Diogelu drwy Ddylunio sydd i'w chyflawni gan ddatblygiad preswyl Cyfnod 2 Kingsland gael ei gyflwyno fel rhan o'r ceisiadau am Faterion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Kingsland a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid ailwampio pob un o'r tai yng Nghyfnod 1 Kingsland i gyflawni'r safon Diogelu drwy Ddylunio honno cyn meddiannu'r tai preswyl hynny yng Nghyfnod 2 Kingsland.

Rheswm: I sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y datblygiad.

86. Ni cheir defnyddio na meddiannu'r un o'r tai sy'n rhan o Gyfnod 2 Kingsland hyd nes y bydd y lle parcio a'r man(nau) troi ar gyfer y tai hynny wedi cael eu cwblhau'n gwbl unol â'r manylion a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan

ddarpariaethau amod 84. Rhaid wedyn cadw'r lle parcio a'r man(nau) troi ar gyfer y pwrpasau hynny'n unig.

Rheswm: Fel bod cerbydau'n gallu tynnu, parcio a throï'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

87. Fel rhan o'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl yng nghyswllt datblygiad Cyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw rhaid cyflwyno cynllun yn dangos manylion yr holl ffyrdd mynediad a ffyrdd eraill ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r Cyfnod hwnnw i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Gyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo manylion y cynllun o dan yr amod hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

88. Rhaid cwblhau'r ffyrdd mynediad a'r ffyrdd eraill sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig ar gyfer Cyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw fel bod ganddynt orffeniad gwaelod isaf cyn defnyddio'r Cyfnod hwnnw o'r datblygiad neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad.

89. Ar gyfer Cyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw, rhaid i'r ffyrdd mynediad a'r ffyrdd eraill gynnwys cyrbiau a rhaid wynebu a goleuo'r gerbydlon a'r pafinau cyn defnyddio'r Cyfnod hwnnw neu ran o'r Cyfnod hwnnw neu o fewn pum mlynedd i ddechrau'r Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad pa un bynnag sy'n dod gyntaf neu o fewn unrhyw gyfnod arall y cytunir arno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad.

90. Ni cheir meddiannu unrhyw ddatblygiad Cyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw hyd nes y bydd mesurau yn eu lle ar gyfer rheoli a chynnal a chadw'r mynediad a ffyrdd eraill yn unol â manylion a gyflwynwyd yn flaenorol ac a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cynnal a chadw'r ffyrdd mynediad a'r ffyrdd eraill yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn am gyn hired ag y mae'r defnydd cychwynnol ac unrhyw ddefnydd sy'n dilyn a gymeradwyir yma'n parhau.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylostod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad.

91. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Gyfnod 1 Kingsland neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd manylion llawn ar gyfer gwaredu draenio dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad a ffyrdd eraill, gan gynnwys amserlen ar gyfer eu gweithredu (gan gynnwys unrhyw system ddraenio neu seilwaith cysylltiedig sydd eu hangen i wasanaethu'r datblygiad) ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gyfeirio at a bod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau amodau 39 a 40 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid i'r gwaith i waredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad a ffyrdd eraill gael ei gwblhau a'i weithredu'n unol â'r manylion a'r amserlen sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol fel rhan o'r datblygiad arfaethedig ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol.

92. Ni chaiff datblygiad Cyfnod 1 Kingsland na rhan o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd cynllun o fesurau i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r Llwybrau Tramwy Cyhoeddus yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw, neu ran o'r datblygiad, yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r mesurau hyn gynnwys cyhoeddusrwydd, hysbysiad o'r mesurau ac amserlen ar eu cyfer sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol am ei ganiatâd ysgrifenedig. Rhaid gweithredu a glynu'n gaeth wrth y manylion a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod drwy gydol y gwaith o adeiladu datblygiad y Cyfnod neu'r rhan o'r datblygiad y maent yn berthnasol iddi.

Rheswm: Er mwyn lleihau anhwylystod i ddefnyddwyr llwybrau troed ac er lles diogelwch y cyhoedd.

hectares of publicly accessible areas with public car parking and enhancements to the Coastal Path, including: Managed walkways within 15 hectares of woodland, the retention and enhancement of Grace's pond, Lily Pond, Scout's pond with viewing platforms, the Pet Cemetery, War Memorial, the Pump House and picnic area with bird feeding stations and hides with educational and bilingual interpretation signage created throughout; Creation of a new woodland sculpture trail and boardwalks and enhanced connection to the Coastal Path; The beach will continue to be accessible to the public providing safe access to the shallow shelving water; A Combined Heat and Power Centre Land at Cae Glas: The erection of leisure village accommodation and facilities which have been designed to be used initially as a temporary construction workers accommodation complex for Wylfa B at land at Cae Glas, Parc Cybi, Holyhead comprising: Up to 315 lodges which will be initially sub divided for nuclear workers accommodation; Central hub building providing reception and canteen ancillary to accommodation; A Park and Ride facility comprising up to 700 car parking spaces; A new hotel; A lakeside hub comprising restaurant, café, retail and bar; New grass football pitch and cricket pitch; and a Combined Heat and Power Centre. To be subsequently converted (post Wylfa B construction) into an extension to the Penrhos Coastal Park Leisure Village comprising: Refurbished lodges and facility buildings to create high quality holiday accommodation (up to 315 family lodges); A Visitor Centre and Nature Reserve allowing controlled public access; and Heritage Centre with visitor parking. Land at Kingsland: The erection of a residential development which has been designed to be used initially as temporary construction workers accommodation at land at Kingsland, Kingsland Road, Holyhead comprising: Up to 320 new houses to be initially used as temporary construction workers accommodation. To be subsequently converted (post Wylfa B construction) into a residential development comprising: Up to 320 residential dwellings set in high quality landscaping and open spaces. Each phase of development will have ancillary development comprising car parking, servicing areas, open spaces and plant. Full detail for the change of use of the existing Estate buildings at Penrhos Coastal Park, London Road, Holyhead including the change of use for: The Bailiffs Tower and outbuildings at Penrhos Home Farm from a cricket clubhouse to a visitors information centre, restaurant, café, bars and retail; Home Farm Barn and Cart Buildings from farm buildings to cycle and sports hire centre; The Tower from residential to a Managers accommodation and ancillary office; and Beddmanarch House from residential to a visitors centre. Parc Arfordirol Penrhos \ Penrhos Coastal Park, Cae Glas a Kingsland, Caergybi \ Holyhead

RHYBUDD PENDERFYNIAD

Darllenwch yr amodau a restrir isod yn ofalus os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen cyflawni rhai o'r amodau cyn, neu yn ystod, y gwaith datblygu.

Mae eich cais wedi cael ei ystyried gan y Cyngor yn unol â'i awdurdod dan y Ddeddf uchod, a rhoddwyd **CANIATÂD** gyda'r amodau canlynol:-

Mae'r diffiniadau canlynol yn ffurfio rhan o ac yn cael eu hymgorffori yn y Caniatâd Cynllunio

Diffiniadau:

“Cymunedau Cyfagos”	sef preswylwyr wardiau etholaethol Morawelon a Ffordd Llundain yng Nghaergybi (neu unrhyw wardiau etholaethol pellach neu a ail-enwir sy'n cwmpasu'r ardaloedd hyn).
“Plannu Manwl”	sef tirlunio'r holl ardaloedd a ddynodir ar ddarluniau rhifau: PL1114.P.PP102 adolygiad C, PL1114.CG.PP102 adolygiad D a PL1114.K.PP102 adolygiad C fel Plannu Manwl [ac yn cydymffurfio â'r safonau yn “BS 8545: 2014 Coed: o'r blanhigfa i annibyniaeth yn y tirlun – Argymhellion” (Chwefror 2014) a BS 3936-4: 2007 – Stoc planhigfa. Manyleb ar gyfer coed fforest, coed poplys a helyg (neu unrhyw fersiynau eraill pellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safonau Prydeinig hyn).
“Datganiad Dull Coedyddiaeth”	sef datganiad dull a baratowyd yn unol â'r weithdrefn yn BS 5837: Coed sy'n ymwneud â dylunio, dymchwel ac adeiladu: Argymhellion (2012) (neu unrhyw fersiwn arall bellach sy'n

	disodli neu'n diweddarau'r Safon Brydeinig hon) sy'n nodi sut y dylid cyflawni gwaith ar y safle wrth ymyl coed er mwyn osgoi difrod damweiniol iddynt.
“Gwarchodfa Natur Cae Glas”	sef canolfan ymwelwyr a gwarchodfa natur ddatblygwyd yn unol â'r Caniatâd Cynllunio hwn ac unrhyw ganiatâd pellach ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl.
“Cyfnod 1 Cae Glas”	sef datblygu hyd at 315 o gabanau, adeilad canolog, gwesty, cyfleusterau parcio a theithio, adeilad ger y llyn yn cynnwys bwyty / caffi, defnyddiau manwerthu a bar, cae pêl-droed glaswellt newydd a chyfleusterau cysylltiedig a Chanolfan Gwres a Phŵer Gyfunol i bwrpas y llety i'r Gweithwyr Niwclear yn ystod y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclearWylfa Newydd ar dir yng Nghae Glas, Parc Cybi, Caergybi amlinellwyd mewn melyn ar y cynllun amgaeedig fel Atodiad 1 i'r hysbysiad y penderfyniad hwn..
“Cyfnod 2 Cae Glas”	sef trosi'r unedau datblygwyd fel rhan o Cyfnod 1 Cae Glas neu ran o'r datblygiad o'r Cyfnod i mewn i bentref hamdden fe fel yr awdurdodir gan y caniatâd cynllunio hwn
“Cloddiau”	sef nodweddion cloddiau pridd terfyn traddodiadol gydag wyneb o gerrig a gwaith plannu ar ben y cloddiau.
“Datganiad Dull Dymchwel”	sef y datganiad dull i gynnwys amserlen, adnabod yr adeilad neu'r strwythur (neu ran ohono) sydd i'w ddymchwel gan gynnwys ffotograffau, y dull o ddymchwel gan gynnwys atodlen o adroddiadau strwythurol ar y gwaith arfaethedig lle bo hynny'n briodol, mesurau i warchod yr holl waliau terfyn, gwrychoedd / coed a strwythurau sydd i'w cadw, gwaredu cynaliadwy ac aildefnyddio deunyddiau, mesurau i ddiogelu rhywogaethau gwarchodedig a rhai eraill acmesurau adfer.
“Canllaw Dylunio”	sef Canllaw Dylunio ar gyfer pob “Cyfnod” o'r datblygiad a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos sut y bydd yr holl Faterion a Gadwyd yn Ôl a'r holl fanylion a gyflwynir o dan amodau caniatâd cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON yng nghyswllt pob “Cyfnod” o'r datblygiad yn cyrraedd y safon a osodir allan yn y diffiniad o Ddatblygiad Enghreifftiol.
Cynllun Rheoli Amgylchedd Gwaith Adeiladu Manwl	sef cynllun i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar sail y manylion a gymeradwywyd yng Nghynllun Rheoli Amgylchedd Gwaith Adeiladu Rhagarweiniol ac i gynnwys mesurau manwl a chlir ar gyfer adeiladu'r “Cyfnod” neu rhan o'r datblygiad yna er mwyn rheoli effaith yr adeiladu ar yr amgylchedd yn effeithiol.
Cynllun Rheoli Traffig Gwaith Adeiladu Manwl	sef cynllun i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar sail y Cynllun Rheoli Amgylchedd Traffig Rhagarweiniol ac i gynnwys mesurau clir a manwl ar gyfer adeiladu'r “Cyfnod” er mwyn rheoli effaith traffig y gwaith ar yr amgylchedd yn effeithiol.

<p>“Strategaeth Draenio”</p>	<p>sef cynllun dangosol yn dangos y pwyntiau gollwng dŵr a'r dulliau ar gyfer gwaredu dŵr aflan, dŵr wyneb a draenio tir.</p>
<p>“Arolwg Ecolegol”</p>	<p>sef adroddiad yn nodi'r cynefinoedd a / neu'r rhywogaethau a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio a gymeradwyir yma neu unrhyw ddiweddariadau o'r Arolwg neu Arolygon Ecolegol a gyflwynir yn y dyfodol yng nghyswllt y caniatad cynllunio a gymeradwyir yma.</p>
<p>Datganiad Amgylcheddol</p>	<p>sef y Datganiad Amgylcheddol a phob Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol gyflwynwyd o dan cynllunio rhif gais 46C427K/TR/EIA/ECON.</p>
<p>“Nodweddion Tirlun Amaethyddol Traddodiadol Presennol a Nodweddion Eraill”</p>	<p>gan gynnwys gwrychoedd, cloddiau, waliau cerrig sych a waliau cerrig eraill, ymylon llwybrau ac ochrau ffyrdd presennol.</p>
<p>“Datblygiad Enghreifftiol”</p>	<p>sef datblygiad cynaliadwy a chydawns o ansawdd eithriadol o uchel a phriodol i'r cyfnod neu rhan o'r datblygiadyng nghyd-destun cyffredinol y tirlun a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (“AoHNE”) gan gynnwys gweledigaeth sy'n briodol i warchod a gwella'r AoHNE a chyda'r blaenoriaethau cyffredinol a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau safon uchel o ddyluniad ar gyfer yr anheddiad ac o ran ei integreiddio'n weledol a ffisegol yng nghyswllt yr “AoHNE”, y cymunedau a'r cefn gwlad sydd yno'n barod; • Ceisio gwarchod a gwella nodweddion arbennig yr AoHNE a rhoi sylw i unrhyw gamau sy'n berthnasol i'r datblygiad yn yr AoHNE, fel y nodir yng Nghynllun Rheoli AoHNE Ynys Môn 2015-2020 (neu unrhyw fersiwn bellach o'r cynllun hwn); • Ceisio gwarchod a gwella nodweddion tirlun megis priddoedd, coed, terfynau a golygfeydd sy'n bwysig i gymeriad, naws lle a threftadaeth; • Lle mae nodweddion presennol yr aneddiadau a'r tirlun yn gadarnhaol ac unigryw, gwarchod ac integreiddio eu defnydd yn y datblygiad, ond lle mae'r nodweddion anheddiad a thirlun hynny'n wan neu'n wael, datblygu nodweddion dyluniad newydd sy'n briodol i wella'r tirlun a'r cyd-destun gweledol; • Darparu tir amlbwrpas deniadol i'r cyhoedd yn ymgorffori symudiad diogel ar gyfer pobl, cyfleoedd hamdden, cynefinoedd naturiol a chynllun System Draenio Cynaliadwy SDS fel rhan o Dirlunio Meddal; • Sicrhau bod cynllunio'r Tirlun Meddal yn cael blaenoriaeth uchel ynghyd ag ystyriaethau cyfleusterau megis ffyrdd, llinellau gweld, parcio, llwybrau gwasanaethau, storffeydd biniau a goleuadau; • Defnyddio ffurfiau adeiledig, ffurfiau tir, gwaith plannu, terfynau,

	<p>deunyddiau adeiladu / wynebu, lliwiau, crefftwaith a thraddodiadau sy'n briodol i'r ardal leol a'r amcanion datblygu; a</p> <ul style="list-style-type: none"> Gosod allan Strategaeth Tirlun wedi'i goleuo gan ddadansoddiad tirlun a gweledol i nodi'r blaenoriaethau a restrir yn y diffiniad hwn er mwyn goleuo ffurf ac edrychiad datblygiad y Cyfnod(au).
“Cynllun Rheoli Llifogydd”	sef cynllun sy'n adnabod y perygl(on) llifogydd ym Mharc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi hamlinellu'r yn wyrdd ar y cynllun amgaeedig fel Atodiad 1 i'r hysbysiad penderfyniad hwn unwaith y bydd wedi'i ddatblygu drwy Gyfnod Penrhos neu rhan o Cyfnod yma ac sy'n gosod allan cynllun gweithredu ar gyfer rheoli unrhyw berygl sy'n cael ei adnabod drwy'r cynllun hwnnw.
“Basged Gerrig”	sef basged neu gawell 'fodiwlaid' wedi'i llenwi ag agreg neu gerrig a ddefnyddir i adeiladu ategwaith neu wal gynnal.
“Tirlunio Cyffredinol a Phlannu Coed”	sef cydymffurfio â'r safonau a osodir allan yn BS 8545: 2014 Coed: o'r blanhigfa i annibyniaeth yn y tirlun – Argymhellion (Chwefror 2014) a BS 3936-4:2007 – Stoc planhigfa: Manyleb ar gyfer coed fforest, coed poplys a helyg a BS 4428:1989 – Cod ymarfer ar gyfer gwaith tirlun cyffredinol (ac eithrio wynebaw caled) (neu unrhyw fersiynau pellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safonau Prydeinig hyn)
“Ardaloedd Tirlunio Caled”	sef defnyddio deunyddiau adeiladu a ddefnyddir i wella tirlun drwy ddyluniad.
“Ased Treftadaeth”	sef adeilad, archeoleg, heneb, safle, lle, ardal neu dirlun sydd wedi'i adnabod i fod ag elfen o bwysigrwydd yn perthyn iddo ac sy'n haeddu ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio, oherwydd ei ddiddordeb treftadaeth. Mae asedau treftadaeth yn cynnwys Asedau Treftadaeth dynodedig ac asedau wedi eu hadnabod gan yr awdurdod cynllunio lleol (gan gynnwys rhestru lleol).
“Amgylchedd Hanesyddol”	sef yr holl agweddau ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng pobl a lle dros amser, gan gynnwys yr holl olion ffisegol o weithgarwch dynol yn y gorffennol, p'un ai'n weledol, claddedig neu a dirluniwyd a fflora wedi'i blannu neu reoli.
“Canolfan Dehongli Treftadaeth”	sef adeilad hygyrch i'r cyhoedd a chyfleusterau parcio ceir a beiciau cysylltiedig wedi'u darparu mewn lle priodol yng nghyffiniau Siambr Gladdu Trefnath fel y'i disgrifir yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma ac y bydd eu hangen os bydd Cyfnod 1 Cae Glas yn cael ei ddatblygu.
“Dehongli”	sef yr ystod lawn o weithgareddau posibl er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella eu dealltwriaeth o safle treftadaeth ddiwylliannol neu o'r AOHNE. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys cyhoeddiadau print ac electronig, darlithoedd cyhoeddus, gosodiadau ar y safle a

	hefyd gosodiadau cysylltiedig oddi ar y safle, rhaglenni addysgol, gweithgareddau cymunedol ynghyd ag ymchwil, hyfforddiant a gwerthusiad parhaus o'r broses ddehongli ei hun.
“Cyfnod 1 Kingsland”	sef y datblygiad o hyd at 320 o unedau yn Kingsland, Ffordd Kingsland, Caergybi wedi'i hamlinellu i'n borffor ar y cynllun amgaeedig fel Atodiad 1 i'r hysbysiad penderfyniad hwn sydd i'w defnyddio i gyd yn llety ar gyfer y Gweithwyr Niwclear yn ystod y gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclear Wylfa Newydd fel y'i disgrifir yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma.
“Cyfnod 2 Kingsland”	sef trosi'r llety ar gyfer y Gweithwyr Niwclear a ddatblygwyd fel rhan o Gyfnod 1 Kingsland yn Dai Preswyl fesul cyfnod wrth i weithlu adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd (A elwir yn Wylfa Newydd) fynd yn llai, yn cynnwys y tai a ailwampwyd a'r seilwaith a ddisgrifir yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma.
Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol	sef Pennod 9 o'r Datganiad Amgylcheddol gan gynnwys yr holl atodiadau, deunyddiau cysylltiedig ac unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau a gyflwynwyd o dan gais cynllunio 46C427K/TR/EIA/ECON.
“Awdurdod Cynllunio Lleol”	sef Cyngor Sir Ynys Môn neu unrhyw gyngor pellach a sefydlir yn dilyn unrhyw ad-drefnu llywodraeth leol.
“Strategaeth Tirlun”	sef strategaeth sydd i gynnwys y manylion a ganlyn: <ol style="list-style-type: none"> 1. y meini prawf diffinnir lleoliad tirlun; 2. adnabod yr ardaloedd, tirnodau a'r nodweddion sydd bwysicaf i leoliad tirlun AoHNE ac y dylid eu diogelu; 3. darparu canllawiau i sicrhau bod y datblygiad yn gydnaws â'r Cyfnod y'i lleolir ynddo; 4. mesurau amlinellol er mwyn cynnal, gwella ac adfer nodweddion yn yr AoHNE; a 5. darparu monitro, newid ac ychwanegu at fesurau i liniaru effeithiau'r datblygiad ar yr AoHNE.
“Cynllun Goleuadau”	sef cynllun, i'w gyflwyno ar gyfer pob Cyfnod neu rhan o'r datblygiad, i gynnwys manylion llawn ar gyfer yr holl oleuadau allanol, y dyluniad a'r fanyleb a'r fethodoleg ar gyfer gosod y goleuadau ynghyd â'u hamseroedd (gan gynnwys parhad) yn y Cynllun Goleuadau sydd i ystyried yn llawn yr holl rywogaethau statudol a gwarchoddedig eraill, yr AoHNE, llygredd golau yn awyr y nos, tai preswyl a haeddiannau cynaliadwyedd y datblygiad a gymeradwyir gan y Caniatâd Cynllunio hwn.
“Cynllun Rheoli, Atgyweirio a Chynnal a Chadw”	sef cynllun sy'n ddarparu ar gyfer cadw, atgyweirio, gwella ac adfer y Nodweddion Tirlun Amaethyddol Traddodiadol presennol a Nodweddion eraill. Rhaid i'r Cynllun Rheoli, Atgyweirio a Chynnal a Chadw gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio cerrig naturiol lleol

	neu gerrig o liw, gwead a nodweddion traul tebyg ar gyfer gwella, atgyweirio ac adfer cloddiau, waliau cerrig sych a waliau cerrig eraill a chynnwys hefyd ddarpariaeth ar gyfer mesurau gwarchod a gwella ecolegol priodol.
“Gwaith Cerrig Naturiol a Phwyntio”	sef math, lliw, maint a haen y cerrig, pa mor gwrs, math o bwyntio a chymysgedd y mortar.
“Llety i’r Gweithwyr Niwclear”	sef yr unedau sydd i’w hadeiladu fel rhan o ddatblygu Cyfnod 1 Cae Glas a Chyfnod 1 Kingsland i’w defnyddio gan y weithwyr wedi gyflogi i adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd (A elwir yn Wylfa Newydd).
“Cyfnod Penrhos”	sef pentref hamdden yn cynnwys hyd at 500 o unedau hamdden newydd a datblygiad cysylltiedig fel y’u disgrifir yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma ar dir a amlinellwyd yn wyrdd ar y cynllun amgaeedig fel Atodiad 1 i’r hysbysiad y penderfyniad hwn.
“Cyfnod”	sef unrhyw un o’r "Cyfnod"(au) canlynol: Cyfnod Penrhos; Cyfnod 1 Cae Glas; Cyfnod 2 Cae Glas; Cyfnod 1 Gwarchodfa Natur Cae Glas; Cyfnod 2 Gwarchodfa Natur Cae Glas; Canolfan Dehongli Treftadaeth; Cae Criced Lôn Trefnath; Cyfnod 1 Kingsland; a Cyfnod 2 Kingsland.
“Cynllun Ecolegol Fesul Cyfnod”	sef cynlluniau unigol yn nodi’r gwaith osgoi, lliniaru a gwneud iawn yng nghyswllt cynefinoedd a rhywogaethau sydd i’w paratoi i bob Cyfnod neu rhan o’r o’r datblygiad.
“Cynllun Cyfnod”	sef cynllun sy’n gosod y paramedrau sy’n rhaid holl geisiadau am gymeradwyaeth Materion a Gadwyd yn Ôl gydymffurfio ag ac mae’n cynnwys unrhyw cynllun diwygiedig dilynol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
“Ffoto-Monitro”	sef offeryn i dynnu llun manau neu leoliadau sefydlog i ddefnyddir i gofnodi unrhyw drawsnewid sylweddol gyda’r datblygiad ac i fonitro cynnydd a pha mor effeithiol yw unrhyw fesurau lliniaru o bryd y dechreuodd y datblygiad hyd at ei gwblhau drwy ddefnyddio ffotograffiaeth amser real o leoliadau ac ar adegau penodol cyn, yn ystod ac yn dilyn y datblygiad (i gael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol) gan gynnwys yr amser a gymrodd i fesurau lliniaru, fel tirlunio i fod wedi sefydlu.
“Strategaeth Pyllau a Chyrff Dŵr”	sef strategaeth yng nghyswllt lleoliad, maint (gan gynnwys trawsdoriadau) a swyddogaeth yr holl gyrff dŵr arfaethedig ar gyfer pob Cyfnod neu rhan o’r datblygiad, ac i’w goleuo gan amcanion y System Draenio Cynaliadwy(SDS), Cynlluniau Ecolegol Fesul Cyfnod a’r Cynllun Rheoli Cadwraeth Bywyd Gwyllt (gan gynnwys elfennau dŵr y rhain).

<p>“Cynllun Rheoli Amgylchedd Gwaith Adeiladu Rhagarweiniol”</p>	<p>sef adroddiad yn darparu'r fframwaith rheoli amgylcheddol ar gyfer adeiladu'r Cyfnod neu unrhyw rhan o'r datblygiad gan gynnwys egwyddorion lliniaru i leihau effeithiau amgylcheddol posibl adeiladu unrhyw Gyfnod neu unrhyw rhan o'r datblygiad sydd i fod yn unol â'r mesurau lliniaru yn y Datganiad Amgylcheddol a'r dogfennau ategol eraill a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio a gymeradwyir yma.</p>
<p>“Cynllun Rheoli Amgylchedd Traffig Adeiladu Rhagarweiniol”</p>	<p>sef adroddiad yn darparu'r fframwaith rheoli amgylchedd ar gyfer traffig adeiladu pob “Cyfnod” neu unrhyw rhan o'r datblygiad gan gynnwys egwyddorion lliniaru i leihau effeithiau traffig adeiladu'r Cyfnod neu unrhyw rhan o'r datblygiad ar yr amgylchedd sydd i fod yn unol â'r mesurau lliniaru yn y Datganiad Amgylcheddol a'r dogfennau ategol eraill a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio a gymeradwyir yma.</p>
<p>“Strategaeth Tir y Cyhoedd”</p>	<p>sef fframwaith sy'n adnabod yr holl fannau cyhoeddus sydd i'w cynnwys fel rhan o bob Cyfnod ac sy'n gosod allan weledigaeth i sicrhau dull cydlynol o ddylunio a sicrhau ansawdd yr holl fan(nau) agored cyhoeddus yn y datblygiad ac ar gyfer eu cynnal a'u cadw a'u rheoli wedyn.</p>
<p>“Cae Criced Lôn Trefignath”</p>	<p>sef cae Criced glaswellt newydd, mynediad i gerbydau a chyfleusterau cysylltiedig ar Lôn Trefignath yn lle'r cae criced a'r cyfleusterau cysylltiedig presennol ym Mhenrhos os datblygir hwynt fel rhan o Gyfnod Penrhos fel y'u disgrifir yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma.</p>
<p>“Rhanbarthau Tarddiad”</p>	<p>sy'n ymwneud â'r system rifo a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Comisiwn Coedwigaeth Cymru o'r blaen) i rannu Prydain yn bedwar rhanbarth tarddiad. Ardaloedd a ddiffiniwyd yw'r rhain lle deuir o hyd i nodweddion ecolegol a hinsawdd tebyg. Maent yn darparu fframwaith ar gyfer nodi ffynonellau o Ddeunydd Atgynhyrchu Forest (FRM).</p>
<p>“Materion a Gadwyd yn Ôl”</p>	<p>sef y manylion a gedwir yn ôl a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yng nghyswllt pob Cyfnod neu rhan o'r datblygiad ar gyfer eu cymeradwyo ac fel y cawsant eu diffinio yn Amod 1 y Caniatâd Cynllunio hwn.</p>
<p>“Lleoliad”</p>	<p>sef o dan ddarpariaethau amod 36 o'r caniatad cynllunio yma mae hyn yn golygu'r amgylchoedd y profir Ased Treftadaeth o fewn iddynt. Nid yw maint y Lleoliad yn benodedig a gallai newid wrth i'r ased a'i hamgylchoedd esblygu. Gallai elfennau o Leoliad wneud cyfraniad cadarnhaol neu negyddol i bwysigrwydd ased, gallai effeithio ar allu [pobl] i werthfawrogi'r pwysigrwydd hwnnw neu gallai fod yn niwtral.</p>
<p>“Pwysigrwydd”</p>	<p>o dan ddarpariaethau amod 36 a 37 y gwerth ased treftadaeth i'r genhedlaeth bresennol ac i'r cenedlaethau a ddêl oherwydd diddordeb yr ased treftadaeth. Gallai'r diddordeb hwnnw fod yn archaeolegol, pensaernïol, artistig neu'n hanesyddol. Mae pwysigrwydd yn deillio nid yn unig o bresenoldeb ffisegol ased treftadaeth, ond hefyd o'i Lleoliad.</p>

“Tirlun Meddal”	sy'n golygu'r deunyddiau llystyfiant a ddefnyddir i wella tirlun drwy dechnegau dylunio.
“Safon”	sef maint coeden sydd i fod â chwmpas, ar gyfer coeden un metr o uchder, rhwng 8 a 10cm o leiaf ac uchder o'r ddaear i'w brig rhwng 2.5 a 3 metr fel y gosodir allan yn BS 8545: 2014 Coed: o'r blanhigfa i annibyniaeth yn y tirlun - Argymhellion (Chwefror 2014) (neu unrhyw fersiwn bellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safon Brydeinig hon)
“Cynllun Rheoli Cadwraeth Bywyd Gwyllt”	sef cynllun i'w baratoi'n manylu ar y dulliau ar gyfer cyflwyno, hyrwyddo, cynnal a chadw a gwella'r ardaloedd ecolegol a bywyd gwyllt y cawsant eu hadnabod yn y cais cynllunio a gymeradwyir yma.
“Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig”	<p>sef cynllun wedi'i ddyfeisio i wella dealltwriaeth o'r gorffennol cyn i'r ased treftadaeth nodwyd neu'r rhan berthnasol ohoni gael ei cholli'n anadferadwy drwy sicrhau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. bod unrhyw ymchwiliad archeolegol, gan gynnwys cofnodi, samplo ac adrodd, yn cael ei wneud i safonau proffesiynol ac i lefel briodol o fanylder sy'n gymesur â Phwysigrwydd tebygol yr Ased Treftadaeth, gan sefydliad neu unigolyn gyda'r arbenigedd priodol; 2. bod y cofnodion, arteffactau a'r samplau wedyn yn cael eu dadansoddi a, lle bo angen, yn cael eu cadw; 3. bod y ddealltwriaeth a enillwyd o gyflawni'r gweithgareddau hyn ar gael i'r cyhoedd; a 4. bod archif yn cael ei chreu a'i dyddodi ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Adran A. Amodau Cynllunio Amlinellol – Perthnasol i bob un o'r tri safle

Mae'r Amodau Cynllunio Amlinellol canlynol yn berthnasol i dri safle'r cais a amlinellir mewn coch ar y cynllun sy'n amgaeedig fel Atodiad 1 yn yr hysbysiad o benderfyniad hwn. Dylid darllen yr amodau cynllunio hyn ar y cyd â'r rhai a restrir yn Adrannau B, C, D ac E o dan yr hysbysiad o benderfyniad hwn.

Dylid darllen y caniatâd cynllunio hwn yn unol â'r Diffiniadau yn y tabl uchod.

1. Gellir cyflawni'r datblygiad a gymeradwyir yma o dan y caniatâd cynllunio hwn fesul cyfnod a rhaid i geisiadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gymeradwyo edrychiad, tirlunio, cynllun a graddfa (a elwir o hyn ymlaen yn “**Materion a Gadwyd yn Ôl**”) yng nghyswllt Cyfnod neu unrhyw ran o'r datblygiad, gael eu cyflawni'n unol â'r Cynllun(iau) Fesul Cyfnod a gymeradwywyd.

Rheswm: fel bod y safle'n cael ei ddatblygu'n foddhaol a chynhwysfawr.

2. Ni cheir cychwyn datblygu unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd y Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Mae'r cais yn un am ganiatâd cynllunio sy'n rhannol Lawn a rhannol Amlinellol ac yn golygu bod angen sicrhau'r materion perthnasol a gadwyd yn ôl sydd eu hangen ar gyfer caniatâd cynllunio Amlinellol.

3. Rhaid cyflwyno'r cais cyntaf am Faterion a Gadwyd yn Ôl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddim hwyrach na diwedd 3 blynedd gan ddechrau gyda dyddiad y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cyflwyno pob cais pellach am Faterion a Gadwyd yn Ôl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddim hwyrach na diwedd 10 blynedd gan ddechrau gyda dyddiad y caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: Wrth ganiatáu cyfnod sy'n fwy na'r hyn a ddarperir o dan Adran 92(2) o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990, ystyriwyd y cynllun datblygu a natur y Datblygiad, h.y. datblygiad fesul cyfnod yw hwn, a rhan ohono'n dibynnu ar ddefnyddio Llety ar gyfer Gweithwyr Niwclear mewn cysylltiad â'r orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig a elwir yn Wylfa Newydd.

4. Rhaid i'r datblygiad a ganiateir drwy hyn ddechrau dim hwyrach na pha bynnag yw'r diweddaraf o'r dyddiadau canlynol:

- diwedd 5 mlynedd o ddyddiad rhoi'r caniatâd hwn; neu
- diwedd 2 flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r cais cyntaf am Faterion a Gadwyd yn Ôl i'w gymeradwyo.

Rheswm: I atal gormod ar unwaith o ganiatadau cynllunio ac fel bo'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu adolygu addasrwydd y datblygiad yng ngoleuni unrhyw amgylchiadau sydd wedi newid a allai godi ac er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Adran 92(2) o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.

5. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau hyd nes y cyflwynir Cynllun Cyfnod ar gyfer pob Cyfnod o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r Cynllun Cyfnod ddarparu amserlen ar gyfer gweithredu, cwblhau a meddiannu / defnyddio, yn eu trefn, pob ardal a rhan o'r Cyfnod ynghyd â manylion ar gyfer lleoliad yr holl gyfleusterau, gwasanaethau, ffyrdd a thirlunio cysylltiedig ynghyd ag unrhyw elfennau cysylltiedig eraill. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r darpariaethau yn y Cynllun Cyfnod a gymeradwywyd.

Rheswm: I sicrhau bod y dilyniant a'r amserlen ar gyfer y datblygiad parhaus, a'r gwaith o gwblhau pob Cyfnod o'r datblygiad, yn digwydd mewn ffordd foddhaol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

6. Rhaid i'r datblygiad a ganiateir yma fod yn gwbl unol â'r cynlluniau isod a gymeradwywyd:

Teitl y Darlun:	Rhif y Darlun:	Adolygiad:
Terfyn Llinell Goch – Cynllun Cyfansawdd	PL1114.P.RL100	E
Cynllun Paramedrau Penrhos – Defnydd Tir	PL1114.P.PP101	C
Cynllun Paramedrau Cae Glas – Defnydd Tir	PL1114.CG.PP101	C
Cynllun Paramedrau Kingsland – Defnydd Tir	PL1114.K.PP101	B
Uchderau'r Adeiladau ym Mhenrhos	908	I
Uchderau'r Adeiladau yng Nghae Glas	911	G
Uchderau'r Adeiladau yn Kingsland	909	C
Cynllun Paramedrau Penrhos – Plannu Manwl	PL1114.P.PP102	C
Cynllun Paramedrau Cae Glas – Plannu Manwl	PL1114.CG.PP102	D

Cynllun Paramedrau Kingsland – Plannu Manwl	PL1114.K.PP102	C
Mynediad Cylchfan Arfaethedig	90145_TA_100	E
Mynediad Arfaethedig Cae Glas	90145/004	A
Cynllun Arfaethedig ar gyfer Ffordd Kingsland – Opsiwn A	90145/002	B
Cynllun Paramedrau ar Raddfa Lai	020	
Atodlen Paramedrau Rhifiadol	913	

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

7. Fel rhan o bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ac unrhyw gais i weithredu amod cynllunio o dan y caniatâd cynllunio hwn:

- a) rhaid cyflwyno gwybodaeth yn dangos sut y mae'r cais yn dod o fewn cwmpas y Datganiad Amgylcheddol (a gymeradwyir fel rhan o'r Caniatâd Cynllunio hwn); a
- b) a rhaid darparu gwybodaeth yn dangos sut y cydymffurfir â'r holl amodau cynllunio o dan y caniatâd cynllunio hwn

i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Ni chaiff y datblygiad sydd i'w gyflawni fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoid ei ganiatâd ysgrifenedig bod gofynion yn yr amod hwn wedi cael ei ryddhau mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig fel rhan o'r cais am gymeradwyaeth Materion a Gadwyd yn Ôl a rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r wybodaeth a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod y wybodaeth amgylcheddol a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio a gymeradwyir yma ac sydd yn y Datganiad Amgylcheddol yn cael (lle bo angen) ei diweddarau'n barhaus a bod y cais neu geisiadau am Faterion a Gadwyd yn Ôl yn disgyn o fewn paramedrau'r effeithiau amgylcheddol a aseswyd; ac i sicrhau y glynir wrth yr amodau yn y caniatâd cynllunio hwn hyd at fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

8. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnwys diweddariad ar yr Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol (a gymeradwyir fel rhan o'r Caniatâd Cynllunio hwn) sydd i fod yn benodol i'r datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo'r Materion a Gadwyd yn Ôl. Rhaid i'r diweddariad darparwyd yn unol a'r amod fod yn unol â thrydydd rhifyn Canllawiau ar Asesu Tirlun ac Effaith Weledol (Ebrill 2013) y Sefydliad Tirlun (neu unrhyw fersiynau pellach o'r canllawiau hyn).

Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r diweddariad i'r Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol darparwyd o dan yr amod yma yn ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r diweddariad i'r Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r tirlun a warchodir yn statudol.

9. Rhaid cynnwys Canllaw Dylunio gyda phob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dangos sut y mae'r datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl yn cydymffurfio â'r diffiniad o Ddatblygiad Enghreifftiol. Rhaid i'r Canllaw Dylunio:

- ystyried gogwydd, cynllun, graddfa, deunyddiau, gorffeniadau allanol, tirlunio presennol ac arfaethedig a'r lefelau daear a llawr a lefelau eraill;
- nodi'n fanwl sut y cymhwysir egwyddorion Datblygiad Enghreifftiol i ddatblygiad Cyfnod neu i ddatblygiad arfaethedig o fewn y Cyfnod neu rhan o'r datblygiad;
- bod yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau ac, o leiaf, adlewyrchu'r canllawiau manwl yn Noddy Cyngor Technegol 12 Dyluniad (2016)(TAN 12) (neu unrhyw ddogfen(nau) sy'n diwygio neu'n disodli'r canllawiau hyn);

- cynnwys adran yn dwyn y teitl “Cyd-destun Arfarnu” fel y manylir arno ac y nodir yn TAN 12;
- dangos sut y mae'r holl geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod neu ran o o'r datblygiad yn cyflawni a glynu wrth ddarpariaethau'r polisïau datblygu a pholisïau cynllunio eraill sy'n berthnasol ar gyfer ystyried gogwydd, cynllun, graddfa, deunyddiau, gorffeniadau allanol, tirlunio presennol ac arfaethedig, lefelau llawr a lefelau eraill; a
- cynnwys darpariaethau manwl Canllaw Dylunio Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Ynys Môn ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig (04.03.08) (neu unrhyw ganllawiau sy'n diweddarau neu'n disodli'r canllawiau hyn).

Cyn cynhyrchu'r Canllaw Dylunio rhaid ymgynghori ag ymgynghoreion statudol perthnasol ac ymgynghoreion eraill (restr i'w cytuno arnynt yn ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol) a bydd y ehangder a chynnwys y Canllaw Dylunio yn adlewyrchu'r ymatebion a gafwyd gan yr ymgynghoreion a gymeradwywyd o dan yr amod yma. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r Canllaw Dylunio. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r Canllaw Dylunio a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol yn ardal y datblygiad ac i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r tirlun sydd wedi'i warchod yn statudol.

10. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnwys manylion yn egluro sut y bydd y datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl yn gwarchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a rhaid i unrhyw ddatganiad o'r fath ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r diffiniad o Ddatblygiad Enghreifftiol yng nghyswllt y canlynol:

- yr Asesiad Tirlun ac Effaith Weledol a gymeradwyir o dan y caniatâd cynllunio hwn ac unrhyw ddiweddariad i'r ddogfen hon sydd angen ei wneud fel rhan o'r cais perthnasol i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl; a
- Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn 2015-2020 (neu unrhyw gynllun sy'n diweddarau neu'n disodli'r cynllun hwn)

Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'n ysgrifenedig y cydymffurfiwyd â'r amod hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol yn ardal y datblygiad a hefyd i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r tirlun sydd wedi'i warchod yn statudol.

11. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gyflwyno Strategaeth Tirlun Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yng nghyswllt y datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo a rhaid i'r Strategaeth Tirlun AoHNE sydd i'w chyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn:

- gynnwys cynllun o'r cofnodion Ffoto-Fonitro sydd i gynnwys, o leiaf, y manau a'r amserlen ar gyfer tynnu ffotograffau cyn dechrau ar y datblygiad, yn ystod y gwaith o adeiladu'r datblygiad ac yn dilyn cwblhau'r datblygiad; a
- darparu Strategaeth Tirlun sy'n ymateb yn gadarnhaol i nodweddion a golygfeydd arbennig yr AoHNE, gan sicrhau y darperir cysylltiadau i rannau eraill o'r AoHNE a bod darpariaethau i fonitro, diwygio ac ychwanegu mesurau i liniaru'r effeithiau ar yr AoHNE ar ôl ystyried amcanion, polisïau a gofynion rheoli Cynllun Rheoli AoHNE Ynys Môn 2015-2020 (neu unrhyw fersiwn bellach o'r cynllun hwn).
- darparu manylion (lle bo angen) y rhyngberthynas rhwng y datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a'r rhannau eraill o'r datblygiad a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r Strategaeth Tirlun AoHNE yn ysgrifenedig. Rhaid

cyflawni'r datblygiad yn unol â'r Strategaeth Tirlun AoHNE a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

12. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gynnwys rhestr o'r holl ddynodiadau statudol perthnasol a darpariaethau deddfwriaethol y mae'n ofynnol i gydymffurfio â hwy fel rhan o'r datblygiad a datganiad ysgrifenedig ddangos sut mae'r cais manwl Materion a Gadwyd yn Ôl yn cydymffurfio gyda'r holl ofynion hynny.

Rheswm: Er mwyn sicrhau ffurf foddhaol o ddatblygiad sy'n unol â'r holl ofynion statudol perthnasol.

13. Rhaid i'r holl ddeunyddiau allanol sydd i'w defnyddio fel rhan o'r datblygiad gynnwys deunyddiau allanol cynaliadwy brodorol sydd i gynnwys toeau gwyrdd, cerrig naturiol lleol a llechi mwyn naturiol lleol neu gerrig / llechi naturiol o liw, gwead a nodweddion traul cyfatebol, er mwyn gwarchod a gwella'r AoHNE.

Rheswm: Er lles amwynderau gweledol ardal y datblygiad a hefyd i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r tirlun sydd wedi'i warchod yn statudol.

14. Rhaid i unrhyw gerrig sydd i'w defnyddio yng nghyswllt Cyfnod neu ran o'r datblygiad (gan gynnwys atgyweirio unrhyw Waith Cerrig Naturiol neu Bwyntio sydd yno'n barod) fod yn gerrig naturiol lleol neu'n gerrig naturiol o liw, gwead a nodweddion traul cyfatebol. Ni chaiff unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y cyflwynir samplau o'r garreg naturiol a manylion adeiladu llawn ar gyfer yr holl Waith Cerrig Naturiol a'r Pwyntio sydd i'w defnyddio yn y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid yna glynu wrth y manylion a gymeradwyir o dan yr amod cynllunio hwn.

Rheswm: Er lles amwynderau gweledol yr ardal leol a hefyd i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

15. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn ar gyfer lefelau slab arfaethedig yr adeiladau a modelau o'r lefelau presennol ac arfaethedig a'r tir o gwmpas sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'n ysgrifenedig y manylion a gyflwynir iddo o dan yr amod hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

16. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddarparu manylion yn dangos sut y bydd y datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl yn cael ei leoli a'i ddylunio'n unol â'r pellteroedd a'r darpariaethau yn Nodyn Cyfarwyddyd 8 Canllaw Dylunio Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Ynys Môn ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig: Agosrwydd y Datblygiad (04.03.08) (neu unrhyw ganllawiau sy'n diweddarau neu'n disodli'r canllawiau hyn) yng nghyswllt unrhyw dŷ neu dai presennol neu arfaethedig a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig y cydymffurfiwyd â'r amod hwn a rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er mwyn atal unrhyw edrych drosto annerbyniol a darparu golygfa dderbyniol o unrhyw dŷ neu dai presennol neu arfaethedig sydd o fewn neu gerllaw'r Cyfnod.

17. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad Cyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd manylion llawn ar gyfer yr holl ddeunyddiau a gorffeniadau allanol (gan gynnwys y manylion o'r fath ar gyfer yr holl waith adeilad(au), Ardaloedd Tirlunio Caled, peirianyddol a gwaith cysylltiedig â'r datblygiad) sydd i fod yn unol â'r Canllaw Dylunio a gymeradwywyd ar gyfer y Cyfnod neu rhan o'r datblygiad ac i gynnwys lliwiau, manylion adeiladu (lle bo'n briodol) a'r dulliau ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi cael eu

cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid gweithredu'n llawn a glynu wrth y manylion a gymeradwyir o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er lles amwynderau gweledol yr ardal leol a hefyd i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

18. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn ar gyfer y deunyddiau allanol a'r lliwiau, manylion adeiladu ar gyfer unrhyw raddiant a luniwyd, goleddf y waliau, byndiau, yr holl waliau cynnal, strwythurau, pontydd a'r gwaith peirianyddol cysylltiedig ar gyfer y rhan honno o'r datblygiad a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni chaiff unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y cyflwynir adroddiad gan beirianydd cymwys addas ar gyfer pob graddiant a luniwyd, goleddf y waliau, byndiau, yr holl strwythurau a phontydd cynnal a phob gwaith peirianyddol cysylltiedig â'r Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig.

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gyflawni mewn ffordd ddiogel ac i sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

19. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Strategaeth Tir y Cyhoedd yn cynnwys manylion yr Ardaloedd Tirlunio Caled, manylion llawn y wybodaeth Ddehongli, trefniadau ar gyfer rheoli'r a mesurau i hwyluso mynediad i'r cyhoedd (a fydd yn cynnwys darpariaethau manwl yn benodol ar gyfer Cymunedau Cyfagos a defnyddwyr anabl) ar gyfer y "Man Agored Cyhoeddus" a nodwyd ar cynlluniau rhifau: PL1114.P.PP 101 adolygiad C a PL1114.K.PP 101 adolygiad B a'r "Man Agored Cyhoeddus wedi Rheoli" ar ddyluniad rhif: PL1114.CG.PP 101 adolygiad Ca gymeradwywyd drwy hyn ac sydd i'w cynnwys yn y Strategaeth Tir y Cyhoedd ynghyd ag amserlen ar gyfer eu gweithredu a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r Strategaeth Tir y Cyhoedd yn ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r Strategaeth Tir y Cyhoedd a gymeradwywyd.

Rheswm: Er lles amwynderau manau agored a manau eraill yn y datblygiad ac i wella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

20. Fel rhan o bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl, rhaid cyflwyno cynllun Plannu Manwl ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r Cynllun Plannu Manwl gydymffurfio â'r safonau a osodir allan yn "BS 8545: 2014 Coed: o'r blanhigfa i annibyniaeth yn y tirlun - Argymhellion" (Chwefror 2014) a BS 3936-4:2007- Stoc planhigfa, manyleb ar gyfer coed fforest, coed poplys a helyg (neu unrhyw fersiynau eraill pellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safonau Prydeinig hyn) ac yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r ardaloedd Plannu Manwl a ddynodir ar ddarluniau rhifau PL1114.P.PP102 adolygiad C, PL1114.CG.PP102 adolygiad D a PL1114.K.PP102 adolygiad C. Rhaid i'r cynllun Plannu Manwl arfaethedig fod yn unol â Rhanbarthau Tarddiad 30, neu Ranbarthau Tarddiad priodol ym Mhrydain neu wedi'i drawsleoli o Gyfnod o'r datblygiad a rhaid iddo gynnwys coed Safonol neu aml-goes a dangos y gwaith plannu arfaethedig yn cynnwys y trefniadau cyfnod a'r amserlen, gan gynnwys maint a dwysedd y rhywogaethau, a gwahaniaethu rhwng y coed sydd i'w cadw gan ddangos eu rhywogaethau, lledaeniad a'u haeddfedrwydd ynghyd â mesurau i'w gwarchod a'u monitro yn ystod y datblygiad ac o fewn cyfnod o ddeng mlynedd i'w plannu. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn hefyd gynnwys y gwaith tomenni ac ailbroffilio daear presennol ac arfaethedig i bwyntiau datwm Meincnodau Arolwg Ordnans. Rhaid gweithredu'r manylion a gymeradwyir yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn ac yn unol â'r Cynllun Cyfnod sydd i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau amod 5 o'r caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: Er lles amwynderau gweledol yr ardal leol a'r tirlun sydd wedi'i warchod yn statudol.

21. Os bydd unrhyw goed neu fangoed sy'n rhan o'r gwaith Plannu Manwl a gymeradwywyd, o fewn deng mlynedd i'w plannu, yn methu â sefydlu, yn cael eu difrodi'n ddirifol neu'n clafychu, yn marw neu'n cael eu

tynnu allan am unrhyw reswm, rhaid plannu coed neu fangoed newydd o faint, rhywogaeth ac aeddfedrwydd tebyg yn y tymor plannu nesaf.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol yr ardal leol a'r tirlun sydd wedi'i warchod yn statudol.

22. Fel rhan o bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl, rhaid cyflwyno cynllun Tirlunio a Phlannu Coed Cyffredinol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Yng nghyswllt y Cynllun Tirlunio Cyffredinol a Phlannu Coed rhaid cydymffurfio â'r safonau a osodir allan yn BS 8545: 2014 Coed: o'r blanhigfa i annibyniaeth yn y tirlun – Argymhellion (Chwefror 2014) a BS 3936-4:2007- Stoc planhigfa, manyleb ar gyfer coed fforest, coed poplys a helyg a BS 4428:1989 – Cod ymarfer ar gyfer gwaith tirlunio cyffredinol (ac eithrio wynebau caled) (neu unrhyw fersiynau eraill pellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safonau Prydeinig hyn) nid oes raid cynnwys manylion y Plannu Manwl; rhaid trefnu i gadw'r coed a'r gwrychoedd presennol ar gyfer y Cyfnod neu ran o'r datblygiad. rhaid dangos y gwaith plannu arfaethedig sydd i fod o Ranbarthau Tarddiad 30 neu Ranbarthau Tarddiad priodol ym Mhrydain neu wedi'i drawsleoli o Gyfnod neu ran o'r datblygiad, rhaid cynnwys manylion llawn ar gyfer maint a dwysedd y rhywogaethau, a gwahaniaethu rhwng y coed a'r gwrychoedd sydd i'w cadw gan ddangos eu rhywogaethau, lledaeniad a'u haeddfedrwydd ynghyd â mesurau i'w gwarchod a'u monitro yn ystod y datblygiad ac o fewn cyfnod o bum mlynedd i'w plannu. Rhaid gweithredu'r gwaith plannu newydd a gymeradwyir erbyn y tymor plannu cyntaf ar ôl meddiannu'r adeiladu neu gwblhau'r datblygiad fan bellaf, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Rhaid gweithredu'r mesurau gwarchod a gymeradwyir cyn dechrau ar y datblygiad. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r Cynllun Tirlunio Cyffredinol a Phlannu Coed yn ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol yn yr ardal leol.

23. Os bydd unrhyw goed neu fangoed sy'n rhan o'r Cynllun Tirlunio Cyffredinol a Phlannu Coed a gymeradwywyd, o fewn bum mlynedd i'w plannu, yn methu â sefydlu, yn cael eu difrodi'n ddirifol neu'n clafychu, yn marw neu'n cael eu tynnu allan am unrhyw reswm, rhaid plannu coed neu fangoed newydd o faint, rhywogaeth ac aeddfedrwydd tebyg yn y tymor plannu nesaf.

Rheswm: Er lles amwynder gweledol yn yr ardal leol.

24. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys arolwg a Datganiad Dull Coedyddiaeth. Rhaid i ddyluniad, cynllun, deunyddiau a manyleb y datblygiad o dan bob Cyfnod neu ran o'r datblygiad ddarparu ar gyfer cadw a gwella coed(en) a choetiroedd pwysig ac yn unol â'r egwyddorion a osodir allan yn:

- “BS 5837:2012 Coed, yng nghyswllt dyluniad, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion” (Ebrill 2012) (neu unrhyw fersiwn arall bellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safon Brydeinig hon).
- Asesiad o'r Effaith ar Goed: Cais Amlinellol TEP (Mai 2013).
- Methodoleg Coetiroedd a Strategaethau Tybiannol (Ebrill 2013) Planit.

Rheswm: Er mwyn cadw a diogelu coed pwysig er lles amwynder gweledol yn yr ardal leol.

25. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn ar gyfer yr holl Nodweddion Tirlun Amaethyddol Traddodiadol presennol a'r Nodweddion eraill (“ETAL”) sydd i'w cadw, atgyweirio neu eu hadfer yn y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cyflwyno'r manylion hyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli, Atgyweirio a Chynnal a Chadw (“MRMP”) ar gyfer yr ETAL, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithrediad drwy gydol datblygiad y Cyfnod hwnnw o'r datblygiad, wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid gweithredu'r Cynllun(iau) MRMP sydd i'w gymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd ac unrhyw amserlen ar ei gyfer.

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cadw a diogelu strwythurau a nodweddion tirlun er lles amwynder gweledol ac am resymau ecolegol a hanesyddol.

26. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn nodi'r holl ddulliau amgáu arfaethedig o gwmpas ac o fewn y Cynllun hwnnw neu ran o'r datblygiad, a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun:

- sicrhau bod y dulliau amgau, sydd i'w gweithredu fel rhan o'r cynllun a gyflwynir o dan yr amod hwn, yn unol â'r darpariaethau yn y Canllaw Dylunio a gymeradwywyd (gweler amod 9 ar gyfer Cyfnod neu ran o'r datblygiad;
- cynnwys darpariaeth ar gyfer plannu gwrychoedd a chodi Cloddiau, waliau cerrig sych a waliau cerrig eraill; a
- cynnwys datganiad dull ar gyfer eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw a sicrhau bod unrhyw gerrig sydd i'w defnyddio'n gerrig naturiol lleol neu'n gerrig o liw, gwedd a nodweddiad traul cyfatebol.

Rhaid codi'r dull o amgau a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad sy'n berthnasol iddo.

Rheswm: Er lles amwynderau gweledol yr ardal leol a hefyd i sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

27. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn rhoi manylion llawn ar gyfer yr holl rwystrau acwstig, ffensio a mesurau eraill ynghyd ag amserlen ar gyfer ei weithredu, a'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r cynllun a gyflwynir iddo o dan yr amod cynllunio hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er lles amwynderau preswylwyr y datblygiad ac amwynderau'r ardal ac er mwyn gwella tangnefedd yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

28. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn gan gynnwys manylion allanol yr holl Gyfleusterau Storio ac Ailgylchu Sbwriel ("RSFR") a Strategaeth Wastraff ("WS") yn nodi sut y bwriedir lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff, mesurau atal llygredd gwastraff ac atal gollwng sbwriel a baw cŵn, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid i'r RSFR a'r WS gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r cynlluniau hyn. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r RSFR a'r WS. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r RSFR a'r WS a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol ar gyfer y datblygiad, i wella amwynderau'r ardal ac i warchod a gwella'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Hefyd i ddiogelu'r amgylchedd, ecoleg leol ac amwynder lleol ac i sicrhau bod y trefniadau lleihau a rheoli gwastraff yn effeithiol yn cael eu gweithredu er budd datblygu cynaliadwy.

29. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn ar gyfer unrhyw strwythurau, ceblo ac unrhyw gyfarpar cysylltiedig sy'n rhan o'r Cynllun Goleuadau ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Ni cheir meddiannu'r datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Goleuadau. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r Cynllun Goleuadau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er mwyn diogelu amwynderau'r ardal a phreswylwyr y tai cyfagos, er mwyn diogelu rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau eraill ac er mwyn gwarchod yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, awyr y nos a sicrhau datblygiad cynaliadwy.

30. Ni chaiff unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd manylion llawn yr holl wasanaethau trydanol, telathrebu, nwy a gwasanaethau eraill ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r

datblygiad wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni chaiff datblygiad y Cyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r manylion o dan yr amod hwn yn ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn gwarchod yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac i ddiogelu nodweddion ecolegol a thirlun.

31. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion ar gyfer y pellteroedd cilio oddi wrth seilwaith cyfleustodau ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r manylion a gyflwynir iddo o dan yr amod hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y diogelir yr asedau a'r gwasanaethau a ddarperir gan ymgymerwyr statudol yn ddigonol.

32. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys a chyflwyno Cynllun Rheoli Amgylchedd Gwaith Adeiladu Rhagarweiniol ("PCEMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Amgylchedd Gwaith Adeiladu Manwl ("DCEMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd hwnnw wedyn yn disodli'r PCEMP. Rhaid i'r DCEMP gynnwys darpariaethau amgylcheddol cyffredinol yng nghyswllt adeiladu'r datblygiad ac, o leiaf, dylai gynnwys manylion ar gyfer:

- cynaliadwyedd y dulliau adeiladu sydd i'w defnyddio;
- yr oriau gwaith yn ystod adeiladu'r "Cyfnod" neu rhan o'r datblygiad;
- yr effaith ar amwynderau preswyl gan gynnwys hawliau i gerbydau neu hawliau tramwy i gerddwyr ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig;
- amwynderau cyffredinol y cyhoedd gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac unrhyw lwybrau caniatool ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig;
- mesurau hwylustod a diogelwch;
- trefniadau parcio'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu;
- gofynion llwytho / dadlwytho;
- lleoliad yr ardaloedd storio;
- mesurau rheoli baw a llwch a mesurau lliniaru, sydd i gynnwys mesurau ar gyfer atal difrod i lystyfiant sydd i'w gadw;
- effeithiau sŵn, dirgryniad a llygredd a mesurau ar gyfer eu lliniaru;
- effeithiau ar ansawdd y dŵr a draenio a mesurau lliniaru;
- effeithiau ar goed a mesurau lliniaru'n unol â BS5837:2012 Coed yng nghyswllt dyluniad, dymchwel ac adeiladu – Argymhellion (Ebrill 2012) (neu unrhyw fersiwn arall bellach sy'n disodli neu'n diweddarau'r Safon Brydeinig hon) sydd i fod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan amod 24;
- bioddiogelwch yng nghyswllt rhywogaethau gwarchoddedig a rhywogaethau eraill ac effeithiau ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a mesurau lliniaru;
- mesurau monitro a chydymffurfio gan gynnwys camau cywiro / atal gyda thargedau yn y DCEMP sydd i fod yn unol lle bo hynny'n berthnasol â Safonau Prydeinig (BS);

Rhaid yna gweithredu a glynu'n gaeth wrth y DCEMP ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn a thrwy gydol y gwaith o adeiladu'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddo.

Rheswm: I ddiogelu rhag unrhyw effaith y gallai Cyfnod adeiladu'r datblygiad ei chael ar yr amgylchedd, tirlun, ecoleg leol ac amwynder lleol ac i sicrhau nad yw difrod damweiniol yn digwydd i'r goeden neu goed yn ystod y gwaith adeiladu.

33. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys a chyflwyno Cynllun Rheoli Amgylchedd Traffig Adeiladu Rhagarweiniol ("PCTEMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Amgylchedd Traffig Adeiladu Manwl ("DCTEMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd hwnnw wedyn yn disodli'r PCTEMP. Rhaid i'r DCTEMP gynnwys darpariaethau amgylcheddol cyffredinol yng nghyswllt adeiladu'r datblygiad ac, o leiaf, dylai gynnwys manylion ar gyfer:

- i. y dulliau o gludo a lleoliadau'r manau storio ar gyfer peiriannau, cyfarpar a deunyddiau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r datblygiad, gan gynnwys mynediad i ac o'r safle oddi ar / i'r briffordd;
- ii. manylion pwynt(iau) mynediad cerbydau â'r llwybr(au) cludo nwyddau ac unrhyw arwyddion dros dro sydd i'w darparu i ddweud lle mae llwybr y traffig adeiladu ynghyd â mesurau i hyrwyddo defnydd diogel ohono;
- iii. dangos y strategaeth lwybro a'r gweithdrefnau ar gyfer hysbysu ynghylch, a chludo, unrhyw lwythi "rhy llydan" ac na ellir eu rhannu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw fesurau angenrheidiol i ddiogelu wynebau'r gerbydlon dros dro; i ddiogelu peiriannau a chyfarpar yr ymgwymerwyr statudol; ac i symud unrhyw ddodrefn stryd oddi yno dros dro a'u rhoi'n ôl wedyn;
- iv. disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer parcio ar y safle i staff fydd yn gweithio ar y safle, ac ar gyfer ymwelwyr; a
- v. cynigion ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth am y DCTEMP i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rhaid yna gweithredu a glynu'n gaeth wrth y DCTEMP ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau'r amod hwn a thrwy gydol y gwaith o adeiladu'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddo.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd drwy gydol y gwaith o adeiladu Cyfnod(au) y datblygiad ac er mwyn hyrwyddo diogelwch ar y briffordd.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

34. Cyn dechrau ar bob Cyfnod o'r datblygiad neu ran o'r datblygiad, rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Pridd ("SMP") ar gyfer y Cyfnod neu ran o'r datblygiad hwnnw o'r datblygiad yn rhoi manylion ar gyfer tyllu, trin a storio pridd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Dylai bob SMP adnabod strategaethau ar gyfer lleihau gwastraff, atal llygredd ac adfer manau yr aflonyddwyd arnynt yn ystod y gwaith adeiladu. Rhaid wedyn gweithredu a glynu'n gaeth wrth y SMP ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad o'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I ddiogelu strwythur y pridd ar safle'r cais.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

35. Cyn dechrau ar bob Cyfnod o'r datblygiad neu ran o'r datblygiad, rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Gwastraff ("WMP") ar gyfer y Cyfnod neu ran o'r datblygiad hwnnw o'r datblygiad yn rhoi manylion ar gyfer trin gwastraff adeiladu, storio a gwaredu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Dylai bob WMP adnabod strategaethau ar gyfer lleihau gwastraff, ailgylchu ac atal llygredd yn ystod y gwaith adeiladu. Rhaid wedyn gweithredu a glynu'n gaeth wrth y WMP ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad o'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: Er mwyn diogelu'r amgylchedd, ecoleg leol ac amwynder lleol ac i sicrhau bod y trefniadau lleihau a rheoli gwastraff yn effeithiol yn cael eu gweithredu er budd datblygu cynaliadwy.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

36. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Cynllun Rheoli Gwarchod Treftadaeth ("HCMP") sydd i adnabod a gosod allan y materion canlynol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad:

- disgrifiad o Bwysigrwydd yr Ased(au) Treftadaeth yr effeithir arnynt;
- disgrifiad o gyfraniad eu Lleoliad i'r Pwysigrwydd hwnnw,
- ac asesiad o effaith y Cyfnod ar Bwysigrwydd yr Ased Treftadaeth; a
- amserlen ar gyfer ei weithredu.
- Mae Pwysigrwydd pob Ased Treftadaeth yn cynnwys eu tiroedd, terfynau a'u Lleoliad(au).

Rhaid i'r HCMP rhoi manylion ynghylch sut y bydd Pwysigrwydd yr Asedau Treftadaeth yn cael eu gwarchod a'u gwella fel rhan o'r datblygiad arfaethedig o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl, yr addasiadau a'r gwaith atgyweirio, defnydd, Dehongli a'r gwaith o reoli'r Ased Treftadaeth ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid i'r HCMP ddiffinio a sicrhau yr ymgysylltir â'r holl randdeiliaid perthnasol. Rhaid iddo gynnwys darpariaethau manwl ar gyfer gweithredu, addasu, atgyweirio, monitro ac adolygu. Ni chaiff y datblygiad arfaethedig fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ei fod yn cymeradwyo'r HCMP. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r HCMP a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod asedau treftadaeth, eu lleoliad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael eu diogelu a'u gwella.

37. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion llawn ar gyfer yr holl waith dymchwel, gan gynnwys Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid i'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig gynnwys asesiad o Bwysigrwydd a:

- a. cadwraeth ac aildddefnyddio sensitif yr Amgylchedd Hanesyddol
- b. Datganiad Dull Dymchwel;
- c. rhaglen a methodoleg ar gyfer ymchwilio a chofnodi'r safle;
- d. rhaglen ar gyfer cyflawni asesiadau ôl-ymchwilio;
- e. darpariaeth ar gyfer dadansoddi'r gwaith o ymchwilio a chofnodi'r safle;
- f. darpariaeth ar gyfer cyhoeddi a lledaenu dadansoddiad a chofnodion yr ymchwiliad safle;
- g. darpariaeth ar gyfer dyddodi dadansoddiad a chofnodion yr ymchwiliad safle mewn archif;
- h. enwebu person neu bersonau / sefydliad cymwys i gyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig; a
- i. amserlen ar gyfer gweithredu'r darpariaethau uchod.

Rhaid cyflawni holl waith dymchwel a datblygiad Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn gwbl unol â'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Ni cheir meddiannu datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd y gwaith ymchwilio ar gyfer y safle a'r asesiad ôl-ymchwilio ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gwblhau'n unol â'r rhaglen a osodir allan yn y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan y cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer dadansoddi, cyhoeddi a lledaenu'r canlyniadau a'u dyddodi mewn archif yn unol â darpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I ddiogelu a chofnodi unrhyw dystiolaeth archaeolegol a allai fod yn bresennol ar y safle.

38. Ni cheir cychwyn datblygu unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yng nghyswllt unrhyw olion archaeolegol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ar ôl hynny, rhaid cyflawni rhaglen llawn o waith archaeolegol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad yn unol â gofynion a safonau'r Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a gymeradwyir o dan yr amod hwn.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

39. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Strategaeth Ddraenio'n rhoi manylion ar gyfer y draeniau aflan sy'n cael eu cysylltu i'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Rhaid iddo hefyd gynnwys darpariaeth i gysylltu'r holl adeiladau presennol yng Nghyfnod 1 Cae Glas a Chyfnod Penrhos i'r garthffos gyhoeddus. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd dyluniadau manwl ar gyfer draeniau aflan, dŵr wyneb a draeniau tir ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (sydd i fod yn unol â darpariaethau Amod 5 sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau'r caniatâd cynllunio hwn) wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid gweithredu'r Strategaeth Ddraenio cyn defnyddio unrhyw ran o'r datblygiad y mae'n gysylltiedig â fo.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol a gwell ar gyfer y datblygiad a'r datblygiad presennol ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad.

40. Cyn dechrau ar unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno manylion y Sustem Draenio Cynaliadwy ("SDS") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r cynllun SDS ystyried darpariaethau'r Strategaeth Ddraenio a gymeradwywyd (a gymeradwyir o dan amod39) a bod yn seiliedig ar yr egwyddorion draenio a osodir allan yn yr Adroddiad Asesu Canlyniadau Llifogydd (Capita Symonds, 2012) a gymeradwyir gan y caniatâd cynllunio hwn. Lle bydd cynllun SDS i'w weithredu ar gyfer unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno manylion ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid iddynt ddarparu:

- i. gwybodaeth am y cyfnodau storm enghreifftiol a pha mor ddrwg y byddent, y dull o ohirio a rheoli dŵr wyneb sy'n rhedeg oddi safle'r Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, a'r mesurau i'w cymryd i atal llygru dŵr daear a / neu ddŵr wyneb;
- ii. amserlen ar gyfer gweithrediad y cynllun SDS; a
- iii. cynllun rheoli a chynnal a chadw ar gyfer oes y Cyfnod neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddo gan gynnwys unrhyw system ddraenio neu seilwaith cysylltiedig sydd ei angen i wasanaethu pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad a sicrhau bod y darpariaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn y cynllun:
 - a. trefniadau sydd i'w mabwysiadu gan unrhyw ymgymerwr statudol neu awdurdod cyhoeddus neu drefniadau eraill i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu gydol oes y datblygiad; a
 - b. rhaid i'r trefniadau cynnal a chadw gynnwys monitro ar gyfer unrhyw ecoleg (ac ystyried hefyd y Cynlluniau Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol) sy'n bresennol a methodoleg i warchod unrhyw ecoleg sy'n cael ei hadnabod fel rhan o'r cynllun rheoli a chynnal a chadw.

Rhaid gweithredu'r cynllun SDS a gymeradwyir ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn llawn cyn dechrau ar y datblygiad arfaethedig fel rhan o gynllun neu o dan gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a rhaid glynu wrth ei ddarpariaethau wedyn.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio fel rhan o'r datblygiad ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol. Hefyd i ddiogelu a gwella'r diddordeb ecolegol a rhywogaethau gwarchoddedig.

41. Ni chaiff dŵr ffo o ddraeniau tir ollwng, yn union neu'n anuniongyrchol, i'r system garthffos gyhoeddus.

Rheswm: I atal gormod o ddŵr rhag mynd i'r system garthffos gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

42. Ni chaiff dŵr wyneb gysylltu, naill ai'n union neu'n anuniongyrchol, i'r system garthffos gyhoeddus.

Rheswm: I atal gormod o ddŵr rhag mynd i'r system garthffos gyhoeddus a llygru'r amgylchedd.

43. Rhaid i'r dŵr aflan a'r dŵr wyneb ddraenio ar wahân o holl safleoedd y cais.

Rheswm: I ddiogelu cryfder y system garthffos gyhoeddus.

44. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli sydd i adnabod yr holl gwlferti a phibelli presennol. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithrediad) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ddarparu manylion llawn yr holl drefniadau presennol ar gyfer draenio drwy gwlferti a phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad a darparu ar gyfer clirio, cynnal a chadw a lle bo hynny'n briodol agor unrhyw drefniadau presennol ar gyfer draenio drwy gwlferti a phibelli. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd Cynllun Rheoli Cwlferti a Phibelli ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad (gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithrediad) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau gweithrediad effeithiol y cwlferti a'r pibelli i leihau'r perygl llifogydd. Hefyd i ddiogelu a gwella'r diddordeb ecolegol a rhywogaethau gwarchoddedig, a hefyd yn rhoi sylw dyledus i Gynlluniau Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

45. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion ar gyfer lleoliad, maint gan gynnwys trawsdoriadau, a swyddogaeth yr holl gyrrff dŵr arfaethedig ynghyd â Strategaeth Pyllau a Chyrff Dŵr sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y cyflwynir manylion hydrolegol, geodechnegol a pheirianyddol llawn yr holl byllau dŵr a chyrff dŵr eraill a gymeradwyir fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a'r gwaith arall yn unol â'r manylion a gymeradwyir ac yn unol ag amserlen ar gyfer ei weithredu.

Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth ac i ddiogelu a gwella nodweddion tirlun, ecoleg ar gyfer amffibiaid, adar ac unrhyw rywogaethau gwarchoddedig.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

46. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun ymchwilio safle'n seiliedig ar ddarparu gwybodaeth ar gyfer asesiad manwl o'r risg o halogi'r holl dderbynyddion, gwerthusiad opsiynau a strategaeth adfer yn rhoi manylion llawn y mesurau adfer sy'n ofynnol a'u gweithrediad, a chynllun monitro a chynnal a chadw hirdymor ar gyfer halogyddion. Rhaid cyflwyno'r cynllun hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cymeradwyo'r manylion a gyflwynir o dan yr amod hwn yn ysgrifenedig. Unwaith y cymeradwyir hwynt, rhaid gweithredu'n llawn a glynu wrth y manylion a gymeradwyir o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau bod unrhyw risg i dderbynyddion o halogi sy'n bresennol ar y safle neu fel rhan o unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad yn cael ei adfer yn foddhaol.

47. Ni cheir meddiannu na defnyddio unrhyw Gyfnod na rhan o'r datblygiad yr effeithir arnynt gan yr halogyddion a nodir yn amod 46 hyd nes y bydd adroddiad dilysu'n dangos y cwblhawyd y gwaith a ddisgrifir yn y strategaeth adfer a gymeradwywyd ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau bod unrhyw halogi sy'n bresennol ar y safle neu fel rhan o unrhyw Gyfnod yn cael ei adfer yn foddhaol.

48. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys Cynllun Ecolegol Fesul Cyfnod ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, sydd i fod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan Amod 5 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid wedyn gweithredu a glynu'n gaeth wrth y Cynllun Ecolegol Fesul Cyfnod ac yn unol â'r manylion a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I ddiogelu a gwella ecoleg y safle, rhywogaethau gwarchoddedig a rhywogaethau eraill.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

49. Rhaid nodi a oes angen unrhyw drwydded rhywogaethau gwarchoddedig fel rhan o bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yng nghyswllt Cyfnod neu ran o'r datblygiad. Ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn ac wedi cadarnhau'n ysgrifenedig naill ai:

- a) bod angen trwydded a roddir gan y corff trwyddedu perthnasol o dan Reoliad 53 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) (neu unrhyw Offeryn Statudol yn disodli'r Rheoliadau hyn) yn awdurdodi bod y datblygiad penodedig yn cael mynd yn ei flaen; neu
- b) datganiad ysgrifenedig gan y corff trwyddedu perthnasol i'r perwyl nad oes angen trwydded rhywogaethau gwarchoddedig ar gyfer y datblygiad.

Rheswm: I helpu i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Cynefinoedd (2010).

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

50. Cyn dechrau ar bob Cyfnod neu ran o'r datblygiad rhaid cyflwyno Strategaeth Monitro Ecolegol ("EMS") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid i'r EMS gynnwys y canlynol:

- a. nodau ac amcanion monitro i gyd-fynd â'r pwrpas dywededig;
- b. cadarnhad ynghylch amodau sylfaenol digonol cyn dechrau ar y datblygiad;
- c. meini prawf llwyddiant priodol, trothwyon, ffactorau niweidiol, ffactorau sy'n sbarduno a thargedau y gellir barnu effeithiolrwydd yr amrywiol fesurau cadwraeth sy'n cael eu monitro yn eu herbyn;
- d. dulliau o gasglu a dadansoddi data;
- e. mesurau goruchwyllo er mwyn monitro a lliniaru effeithiau dal / lladd yn ddamweiniol;
- f. lleoliad y monitro;
- g. amserlen ar gyfer gweithredu'r Strategaeth a'r trefniadau monitro wedyn tra pery'r defnydd o'r "Cyfnod" na rhan o'r datblygiad hwnnw o'r datblygiad a gymeradwyir yma ac sydd i aros yn llwyr mewn grym ac i gael effaith am gyn hired ag y bydd y datblygiad a gymeradwyir yma'n parhau i gael ei ddefnyddio;
- h. manylion amseru a pharhad y monitro sydd i'w cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar adegau fydd wedi eu nodi yn yr EMS neu ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol;
- i. personau cyfrifol a llinellau cyfathrebu;
- j. trefniadau i adolygu, lledaenu a lle bo hynny'n briodol ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau a'r deilliannau;
- k. darpariaeth ar gyfer cymryd camau cywiro i'w cytuno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac i'w gweithredu o fewn amserlen benodol lle mae'r monitro'n awgrymu nad yw darpariaethau meini prawf a) ac) yn cael eu cwrdd.
- l. manylion ar gyfer sut y mae'r EMS wedi ystyried y Cynllun(iau) Ecolegol Fesul Cyfnod perthnasol a gymeradwywyd; a
- m. tystiolaeth bod y materion o fewn cwmnasiad pwyntiau a. i l. wedi cael eu cymeradwyo yn ysgrifenedig gan ymgynghoreion statudol ac unrhyw rhai arall perthnasol.

Rhaid cyflawni'r gwaith a nodwyd yn yr EMS yn gwbl unol â'r manylion a'r amserlen a gymeradwyir yma.

Rheswm: I sicrhau na achosir niwed i statws cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau a bod canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn yn cael eu monitro'n addas. Pwrpas yr EMS fydd monitro a lliniaru effeithiau'r

datblygiad yn y tymor byr a'r hirdymor ar gynefinoedd a rhywogaethau yr ystyrir eu bod o ddiddordeb ecolegol i bob Cyfnod neu rhan o'r datblygiad.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

51.Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd datganiad dull ar gyfer rhywogaethau gwarchoddedig yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r datganiad dull gynnwys:

- a) pwrpas ac amcanion o'r gwaith arfaethedig;
- b) y dyluniad(au) manwl a / neu'r dull(iau) gwaith sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion dywededig (gan gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, math a ffynhonnell y deunyddiau sydd i'w defnyddio) gan gynnwys mesurau osgoi rhesymol sy'n cynnwys codi ffens dros dro a symud rhywogaethau o ardaloedd gweithio;
- c) maint a lleoliad y gwaith arfaethedig i'w dangos ar fapiau a chynlluniau wrth raddfa briodol;
- d) amserlen weithredu, gan ddangos pa waith sy'n cyd-fynd â'r gwahanol gyfnodau adeiladu sydd mewn golwg;
- e) personau sy'n gyfrifol am weithredu ac asesu'r gwaith;
- f) mesurau sydd i'w cymryd i atal neu leihau dal / lladd damweiniol yn ystod y datblygiad neu wedyn;
- g) mesurau ôl-ofal a chynnal a chadw hirdymor; a
- h) sut y bwriedir gwaredu unrhyw wastraff yn codi o'r gwaith.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a'r amserlen a gymeradwyir yma.

Rheswm: I sicrhau nad oes niwed i statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ystod y gwaith adeiladu, a bod data sylfaenol priodol wedi'i gasglu i fonitro canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn.

52.Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd manylion llawn yr holl fesurau a ddyfeisiwyd i atal dal / lladd amffibiaid ac ymlusgiaid yn ddamweiniol ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid iddynt gynnwys mesurau:

- a) sydd i'w cyflawni yn ystod y datblygiad; a
- b) sydd i'w hymgorffori yn y datblygiad gan gynnwys dyluniad a gweithrediad systemau rheoli dŵr wyneb sy'n gyfeillgar i amffibiaid.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: Fel tystiolaeth yr ystyriwyd materion dal / lladd yn ddamweiniol gan felly sicrhau na achosir niwed i gynnal statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ac i ddiogelu rhywogaethau gwarchoddedig eraill.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

53.Lle nodir hynny mewn Arolwg Ecolegol fel rhan o gais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer pob Cyfnod neu ran o'r datblygiad, rhaid i fanylion llawn ar gyfer creu a chau daearau moch daear, gan gynnwys amserlen ar gyfer eu creu a'u cau, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd copi electronig o'r manylion a gyflwynir yn cael ei ddarparu ynghyd ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol am foch daear a olygwyd at bwrpas ymgynghori gyda'r cyhoedd neu ymgynghori arall. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a lliniaru'r effeithiau ar rywogaethau gwarchoddedig.

54.Lle nodir hynny mewn Arolwg Ecolegol ni chaiff datblygiad unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun gwneud iawn yng nghyswllt y Fadfall Gribog Fwyaf ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun gwneud iawn Madfall Gribog Fwyaf gynnwys y canlynol:

- a. adnabod lleoliad yr ardal(oedd) gwneud iawn ynghyd â rhoi gwybod am leoliad ardaloedd o'r fath i gyrff penodol ar ffurf fformatau'r system wybodaeth ddaearyddol (GIS);
- b. cynlluniau rheoli hirdymor gan gynnwys adolygiadau cyfnodol;
- c. rhagnodiadau rheoli hirdymor;
- d. rhagnodiadau wardeinio hirdymor;
- e. dull ar gyfer rhoi adnoddau ar gyfer rheoli hirdymor;
- f. personau neu sefydliadau cyfrifol a llinellau cyfathrebu; a
- g. dulliau ar gyfer sicrhau bod yr ardaloedd gwneud iawn yn cael eu diogelu ac yn weithredol yn yr hirdymor.

Rhaid cyflawni'r gwaith yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau nad oes niwed i statws cadwraeth ffafriol y Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, a bod data sylfaenol priodol wedi'i gasglu i fonitro canlyniadau'r mesurau lliniaru a gwneud iawn.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

55.Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer cadw, gwella a thrawsleoli'r fflora ar y ddaear yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu ac sydd lle'n berthnasol i fod yn unol â darpariaethau Arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1 Pentref Hamdden Penrhos 2014 (neu unrhyw ddiweddariad neu fersiwn bellach o'r ddogfen hon) wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sydd i'w gymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a lliniaru unrhyw effeithiau ar yr ecoleg.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

56.Ni chaiff unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer difa rhywogaethau planhigion goresgynnol yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu ac sydd lle'n berthnasol i fod yn unol â darpariaethau Arolwg Cynefinoedd Cyfnod 1 Pentref Hamdden Penrhos 2014 (neu unrhyw ddiweddariad neu fersiwn bellach o'r ddogfen hon) wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sydd i'w gymeradwyo o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r cynllun a'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd.

Rheswm: I ddiogelu a gwella ecoleg yr ardal.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

57.Ni cheir meddiannu unrhyw Gyfnod neu ran o'r datblygiad hyd nes y bydd atodlen yn nodi'r holl oriau a'r diwrnodau gweithredu (gan gynnwys gwyliau banc ac unrhyw amseroedd dosbarthiadau fel y bo'n briodol) ar gyfer yr holl ddefnyddiau gweithredol a defnyddiau atodol yng nghyswllt y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi'i chyflwyno a'i chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni cheir wedyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad heblaw rhwng yr amseroedd a'r diwrnodau a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn. Er mwyn osgoi amheuaeth mae'r amod cynllunio hwn yn eithrio unedau llety gwyliau ac unedau preswyl a gymeradwyir o dan y caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I ddiogelu amwynder yr ardal.

58.Ni cheir defnyddio Cyfnod Penrhos a Chyfnod 2 Cae Glas ond fel pentref hamdden gwyliau ynghyd â defnyddiau atodol.

Rheswm: Er mwyn diffinio sgôp y caniatâd cynllunio ac i sicrhau nad yw defnyddiau amhriodol yn digwydd yn yr ardal dan sylw.

59.Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn nodi'r holl ardaloedd parcio / troi / llwytho a dadlwytho ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod

Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid gosod y cynllun allan cyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd a'i gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: Fel bod cerbydau'n gallu tynnu, parcio a throï'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

60. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys cynllun yn manylu yr holl feysydd a chyfleusterau storio beiciau (a fydd yn cynnwys stondin beicia, llochesi beiciau a ganolfannau / cyfansoddion seiclo diogel) ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad. Rhaid cyflwyno'r cynllun i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig a rhaid gosod y cynllun allan cyn defnyddio'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwywyd a'i gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer storio beiciau'n ddiogel a sicr yn cael ei wneud i annog deiliaid y datblygiad i deithio ar feic.

61. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl gynnwys manylion ar gyfer lleoliad a hyd yr holl lwybrau ceffyl, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, llwybrau a phwyntiau mynediad i gerddwyr a cherbydau preifat yn yr ardal sydd i'w datblygu fel rhan o'r Cyfnod neu ran o'r datblygiad a rhaid dangos yr ardaloedd a'r lleoliadau hyn yn glir ar y cynlluniau sydd i'w cyflwyno fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl.

Rheswm: Er lles amwynder y cyhoedd yn gyffredinol a phreswylwyr y tai y mae'r mynedfeydd hyn yn berthnasol iddynt.

Adran B – Amodau Cynllunio Amlinellol – Parc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi

Mae'r amodau cynllunio amlinellol canlynol yn berthnasol i Gyfnod Penrhos y datblygiad yn unig a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac a ddangosir wedi'i groeslinellu'n wyrdd ar y cynllun ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau cynllunio amlinellol cyffredinol a restrir yn Adran A yr hysbysiad o benderfyniad hwn sy'n berthnasol i bob un o'r tri safle.

62. Os yw'n digwydd bod canolfan(nau) Gwres a Phŵer Cyfunol ("CHP") yn cael ei/eu datblygu, rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer y CHP i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos. Rhaid i'r manylion sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos gynnwys asesiad llawn o ansawdd yr aer a threfniadau i'w fonitro wedyn, gan gynnwys amserlen ar gyfer hynny a chyfrifiadau o uchder(au) y simneiau. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol ar gyfer y datblygiad ac na fydd effaith negyddol sylweddol ar yr amcanion yng nghyswllt ansawdd yr aer.

63. Fel rhan o'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos rhaid cyflwyno Cynllun Rheoli Llifogydd ("FMP") ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r Cyfnod, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei weithredu a'i gynnal a'i gadw, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cyflawni'r gwaith yng nghyswllt y cynllun a gymeradwywyd, a hefyd y gwaith cynnal a chadw ar ei gyfer wedyn, yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd. Rhaid i'r FMP wneud trefniadau ar gyfer gwagu Cyfnod Penrhos neu ran o Gyfnod Penrhos os bydd llifogydd llanw'n digwydd.

Rheswm: I sicrhau bod canlyniadau unrhyw llifogydd wedi cael eu hasesu a'u lliniaru'n ddigonol.

64. Rhaid i'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys manylion llawn ac amserlen ar gyfer y gwaith o atgyweirio Basgedi Cerrig a chynnal a chadw wedyn a'r mesurau lliniaru eraill sydd eu hangen ar gyfer yr Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd (Capita Symonds, 2012), sydd i'w cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun sy'n destun yr amod hwn, a'r gwaith cynnal a chadw wedyn, yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau mesurau i liniaru yn erbyn canlyniadau posibl unrhyw ddigwyddiad llifogydd.

65. Fel rhan o'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer datblygu'r Tŷ Cwch a Baddondy (sy'n cael eu datblygu fel rhan o Gyfnod Penrhos) rhaid cyflwyno manylion ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi lefel(au) arfaethedig y lloiau gorffenedig ar gyfer y Tŷ Cwch a'r Baddondy sydd i fod yn 4.8m AOD o leiaf ac yn unol â'r cynlluniau a gymeradwyir fel rhan o'r caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I leihau'r perygl llifogydd ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004) (neu unrhyw ddogfen(nau) sy'n diwygio neu'n disodli'r canllawiau hyn).

66. Ni chaiff datblygiad Cyfnod Penrhos na rhan o Gyfnod Penrhos ddechrau hyd nes y bydd cynllun o fesurau i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r Llwybr Arfordirol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybr(au) Beicio eraill yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer y Cyfnod hwnnw, neu ran o'r datblygiad, wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun i gyflwyno o dan ddarpariaeth yr amod yma gynnwys cyhoedduswydd a hysbysiad o'r mesurau sydd i'w cymryd i sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio'r llwybrau a nodwyd ac amserlen ar gyfer gwneud hynny. Rhaid gweithredu a glynu wrth y manylion a gymeradwyir mewn ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn drwy gydol y gwaith o adeiladu Cyfnod Penrhos neu'r rhan o'r datblygiad y maent yn berthnasol iddi.

Rheswm: Er mwyn lleihau anhwylystod i ddefnyddwyr llwybrau troed ac er lles diogelwch y cyhoedd.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

67. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys a chyflwyno manylion llawn ar gyfer yr holl ffyrdd mynediad preifat arfaethedig a ffyrdd eraill yn y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cwblhau'r ffyrdd mynediad preifat a'r ffyrdd eraill a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn cyn meddiannu Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddi.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

68. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad o Gyfnod Penrhos neu ran o'r Cyfnod hwnnw ddechrau hyd nes y bydd cynllun yn dangos manylion ar gyfer gwaredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a mannau parcio eraill, i gynnwys lle bo hynny'n berthnasol manylion llawn y seiffonau tanwydd neu system System Draenio Cynaliadwy ("SDS") o fath arall sydd i fod â chapasiti priodol, ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad, wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn gyfeirio at a bod yn unol â'r manylion sydd i'w cymeradwyo o dan ddarpariaethau amodau 39 a 40 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cwblhau a gweithredu'r gwaith i waredu dŵr wyneb o'r ffyrdd mynediad preifat ac o ffyrdd a mannau parcio eraill yn unol â'r manylion a'r amserlen sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn.

Rheswm: I sicrhau y darperir cyfleusterau draenio effeithiol fel rhan o'r datblygiad arfaethedig ac i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol i'r amgylchedd nac i'r tai sydd gerllaw'r datblygiad ac i sicrhau bod dŵr wyneb o'r datblygiad yn cael ei storio / gwaredu'n foddhaol.

25/03/21 DIS / 2020/92 Rhyddhawyd mewn mor bell a mae'n ymwneud â RM / 2018/6

69. Er y mynediad o Ffordd Llundain (neu unrhyw enw diwygiedig ar y briffordd gyhoeddus hon) fel y'i dangosir ar gynllun y "Mynediad Cylchfan Arfaethedig" (cyfeirnod cynllun: 90145_TA_100adolygiad E) a gymeradwyir yma, cyn dechrau datblygu Cyfnod Penrhos neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer dylunio ac adeiladu'r mynediad a ddangosir ar y darlun a gymeradwywyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Rhaid i'r cynllun gynnwys, o leiaf, manylion peirianyddol llawn y mynediad i'r briffordd o'r rhan honno o'r safle, lleiniau gwelededd (gan gynnwys, o leiaf, y llinell ganol a'r pellteroedd o boptu a'r uchder arfaethedig uwchlaw'r gerbydlon / pafin), amserlen ar gyfer gweithredu'r mynediad, y cyfleusterau croesi i gerddwyr, y deunyddiau adeiladu, lefelau, graddiannau, draenio dŵr wyneb, goleuadau, nodweddion hanesyddol, gwrychoedd, coed a nodweddion llinellol presennol megis waliau a thirlunio, gan gynnwys yr holl addasiadau angenrheidiol ac arfaethedig i'r briffordd bresennol. Rhaid cadw'r lleiniau gwelededd a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn glir o unrhyw rwystr. Yna rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r cynllun a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr amod hwn.

Rheswm: Er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd a'r mynediad ac i sicrhau digon o welededd rhyngddynt. I sicrhau bod y datblygiad yn cadw a diogelu strwythurau a nodweddion tirlun er lles amwynder gweledol ac am resymau ecolegol a hanesyddol.

Adran C – Caniatâd Cynllunio Llawn – Tŵr y Beiliaid, Tŷ Allan yn Fferm Penrhos a Thŷ Beddmanarch ym Mharc Arfordirol Penrhos, Ffordd Llundain, Caergybi

Mae'r Amodau Cynllunio llawn canlynol yn berthnasol yn unig i'r adeiladau presennol a nodir ar ddarlun Rhif 020 sydd ynghlwm fel Atodiad 2 ac a leolir yng Nghyfnod Penrhos a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac ac a ddangosir wedi'i groeslinellu'n wyrdd ar y cynllun ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn

70. Bydd y newid defnydd a ganiateir drwy hyn yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd cynllunio hwn.

Rheswm: I gydymffurfio â gofynion Adran 91(1) Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.

71. Bydd y newid defnydd a ganiateir yma ond yn dechrau ar ôl gweithredu'r cais cyntaf am Faterion a Gadwyd yn Ôl a gymeradwyd mewn perthynas â'r Cyfnod Penrhos o'r datblygiad. Bydd y newid defnydd a ganiateir yma ond ei ddefnyddio ar sail atodol i'r pentref hamdden gwyliau ynghyd â'r defnyddiau atodol eraill a gymeradwyd o dan ddarpariaethau caniatâd cynllunio amlinellol 46C427K/TR/EIA/ECON.

Rheswm: I sicrhau nad yw'r newid defnydd yn digwydd cyn gweithredu'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer y Cyfnod Penrhos cysylltiedig ac i sicrhau ei fod yna'n aros yn rhan o'r un uned gynllunio.

72. Rhaid cyflawni'r datblygiad a ganiateir yma'n gwbl unol â'r Cynllun Paramedrau ar Raddfa Lai (Darlun Rhif 020).

Rheswm: I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwyd.

73. Ni chaiff unrhyw ran o'r datblygiad a ganiateir yma ddechrau hyd nes y bydd cynllun ar gyfer parcio cerbydau, troi a llwytho / dadlwytho yng nghyswllt yr holl adeiladau a nodir ar ddarlun Rhif 020 wedi cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r cynllun ar gyfer parcio cerbydau, troi a llwytho / dadlwytho a gymeradwyd yn ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn gael ei osod allan cyn meddiannu'r datblygiad a ganiateir yma a rhaid wedyn cadw'r ardal honno drwy gydol y defnydd a gymeradwyir yma.

Rheswm: Fel bod cerbydau'n gallu tynnu, parcio a throi'n glir o'r briffordd er mwyn lleihau perygl, rhwystr ac anhwylystod i ddefnyddwyr y briffordd gyfagos.

Er gwybodaeth

1. Nid yw'r caniatâd cynllunio a roddir drwy hyn ar gyfer y newid defnydd arfaethedig yn awdurdodi unrhyw newidiadau i edrychiad allanol yr adeiladau.
2. Os bwriedir gwneud gwaith ar edrychiad allanol yr adeiladau, yna efallai y bydd angen caniatâd cynllunio llawn.
3. Os bwriedir cyflawni gwaith mewnol ac allanol ar adeilad sydd wedi'i restru, yna gallai fod angen caniatâd adeilad rhestredig.
4. Nodiadau'n ymwneud â rhywogaethau gwarchoddedig ac adeiladau (ystlumod, adar nythu), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cynefinoedd (2010, fel y'u diwygiwyd).

Adran D – Amodau Cynllunio Amlinellol – Tir yng Nghae Glas, Parc Cybi, Caergybi

Mae'r amodau cynllunio amlinellol canlynol yn berthnasol i Cyfnod 1 Cae Glas, Gwarchodfa Natur Cae Glas, Cae Criced Lôn Trefignath, Canolfan Dehongli Treftadaeth a Cyfnod 2 Cae Glas y datblygiad yn unig a ddiffinnir yn y diffiniadau sy'n rhan o'r hysbysiad o benderfyniad hwn ac a ddangosir wedi eu croeslinellu'n felyn ar y cynllun sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r hysbysiad o benderfyniad hwn, a'r tir glas cysylltiedig sydd o fewn rheolaeth yr ymgeisydd pe bai angen o dan ddarpariaethau'r amod cynllunio perthnasol. Dylid eu darllen ar y cyd â'r amodau cynllunio amlinellol cyffredinol a restrir yn Adran A yr hysbysiad o benderfyniad hwn sy'n berthnasol i bob un o'r tri safle.

74. Ni chaiff unrhyw waith neu weithrediad(au) yng nghyswllt ailwampio Cyfnod 1 Cae Glas yn Gyfnod 2 Cae Glas, a hynny'n waith neu'n weithrediad(au) mewnol ac allanol, ddigwydd hyd nes y bydd manylebau llawn gan gynnwys cynllun yn nodi'r lle parcio i gerbydau, y lle troi a llwytho / dadlwytho ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu'r gwaith neu weithrediad(au) ailwampio ar gyfer y Cyfnod hwnnw neu ran o'r datblygiad wedi cael

eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid wedyn gweithredu'r gwaith o ailwampio Cyfnod 1 Cae Glas a'r cyfleusterau cysylltiedig yn Gyfnod 2 Cae Glas yn gwbl unol â'r manylion a gymeradwyir o dan ddarpariaethau'r amod hwn. Rhaid i'r cynllun cymeradwy ar gyfer parcio i gerbydau, lle troi a llwytho / dadlwytho gael ei osod allan cyn defnyddio Cyfnod 2 Cae Glas neu ran o'r datblygiad y mae'n berthnasol iddi a rhaid ei gadw wedyn ar gyfer y pwrpasau hyn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

75. Os yw'n digwydd bod canolfan(nau) Gwres a Phŵer Cyfunol ("CHP") yn cael ei/eu datblygu, ac fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas rhaid cyflwyno manylion llawn ar gyfer y CHP i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel rhan o'r Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas. Rhaid i'r manylion sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig o dan ddarpariaethau'r cais neu geisiadau i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer Cyfnod 1 Cae Glas gynnwys asesiad llawn o ansawdd yr aer a threfniadau i'w fonitro wedyn, gan gynnwys amserlen ar gyfer hynny a chyfrifiadau o uchder(au) y simneiau. Rhaid cyflawni'r datblygiad a gwaith arall yng nghyswllt y cynllun yn unol â'r cynllun a'r amserlen a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol ar gyfer y datblygiad ac na fydd effaith negyddol sylweddol ar yr amcanion yng nghyswllt ansawdd yr aer.

76. Rhaid i bob cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl sy'n ymwneud â Cyfnod 1 Cae Glas neu unrhyw ran o'r Cyfnod hwnnw gynnwys manylion ar gyfer y lleoliad a'r manylion adeiladu llawn, topograffig ynghyd â manylion eraill gan gynnwys deunyddiau ac amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw fwnd neu arglawdd ar hyd ffyrntiad y safle â Gwibffordd yr A55 a'u cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid i'r manylion sydd i'w cyflwyno o dan ddarpariaethau'r amod hwn fod yn unol â'r cynllun Plannu Manwl a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan amod 20 y caniatâd cynllunio hwn. Rhaid cyflawni'r datblygiad yn unol â'r manylion a gymeradwywyd o dan yr amod hwn.

Rheswm: I sicrhau edrychiad boddhaol i'r datblygiad.

77. Rhaid i'r cais i gymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer datblygu Cae Criced Lôn Trefnath gynnwys manylion llawn y gwaith adeiladu ynghyd â manylion eraill yng nghyswllt safonau a manyleb y cae criced sydd i'w symud a'r cyfleusterau cysylltiedig (ac sydd i fod yn unol â "Cynllunio a Dylunio ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored" Meysydd Chwarae Cymru (2008) a "Dylunio a Chynnal a Chadw Cyfleusterau Chwaraeon Awyr Agored" (2004) neu unrhyw ddogfennau sy'n diweddarau neu'n disodli'r dogfennau hyn) yn lle'r ddarpariaeth bresennol yng Nghyfnod Penrhos ynghyd ag amserlen ar gyfer eu gweithredu a'u cyflwyno i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni chaiff unrhyw ddatblygiad yng nghyswllt Cae Criced Lôn Trefnath ddechrau hyd nes y cymeradwyir y manylion o dan yr amod hwn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Rhaid cyflawni'r datblygiad a'r gwaith arall sydd arfaethedig o dan ddarpariaethau'r amod hwn yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.

Rheswm: I sicrhau datblygiad boddhaol.

